Y TINCER MEWN LLIW!

# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 311

Medi 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# AGOR SWYDDFA

**Bu Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, yn agor pencadlys newydd StrataMatrix yn swyddogol dydd Iau Medi'r 4ydd ym Mhlas Gogerddan ac yn lawnsio Monitor Cymru, is-gwmni newydd StrataMatrix sydd yn darparu gwasanaethau monitor digidol.**

**Yn y llun mae Huw Jones, Cyfarwyddwr; Wynne Melville Jones, Cadeirydd a Sylfaenydd StrataMatrix; Arwyn Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr a Dawn Havard, Cyfarwyddwraig.**




## ENNILL CADAIR



Vernon Jones, yn ennill coron Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan yn ystod mis Awst gyda'i wyrion Gruff ac Ifan.
**Llun**: Tim Jones

## ESGOB NEWYDD



Ar Fedi 1af etholwyd y Tra Pharchedig John Wyn Evans, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi, yn 128fed esgob Esgobaeth Tyddewi.
Bu'n byw, tra yn blentyn, ym Mhenrhyn-coch — gweler tudalen 12 -13.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 311 | Medi 2008


Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch % 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor % 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG % 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre % 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth % 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street % 828337

**TRYSORYDD** - Aled Griffiths, 18 Dolhelyg, Penrhyn-coch % 828176
griffiths95@googlemail.com

**CASLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street % 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street % 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol % 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen % 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro % 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell % 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd % 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, % 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach % 880335
Elwyna Davies, Tyncwm % 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd % 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar % 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno % 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre % 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern % 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth % 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau % 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **HYDREF 2** A **HYDREF 3** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **HYDREF 16**

**MEDI 20 - TACHWEDD 22** Arddangosfa Jeremy Moore Blaenau: Rhwng Daear a Nef. yn LLGC

**MEDI 27** Nos Sadwrn Cwmni Theatr Cydweithredol Troed y Rhiw yn perfformio Blodeuwedd (Saunders Lewis) ym Morlan, Aberystwyth am 7.30

**MEDI 29** Nos Lun Swgrs yn y gyfres Dweud ei ddweud gan yr Athro Gareth Wyn Jones – Tswnamis bach a mawr ym Morlan, Aberystwyth am 7.30

**HYDREF 1** Nos Fercher Gwasanaeth diolchgarwch Horeb yng nghwmni Dr Dylan John fydd yn trafod ei gyfnod yn Lesotho am 7.00

**HYDREF 2** Nos Iau Noson o ddramâu gan Licris Alsorts: Rhwng pob cegiad a Dail Tafol yn Neuadd Rhydypennau am 7.30

**HYDREF 10 - 11** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Iesu! (Aled Jones Williams) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**HYDREF 13** Nos Lun Noson Dweud ei ddweud – Y Parchg Aled Jones Williams yn trafod ei ddrama Iesu ym Morlan, Aberystwyth am 7.30

**HYDREF 15** Nos Fercher John Glant Griffiths, yn sôn gyda chymorth sleidiau, am Ryfeddodau'r goedwig oddi mewn ac oddi allan. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 15** Nos Fercher Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010
Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm

**HYDREF 17** Nos Wener Darlith agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn gan yr Arglwydd Elystan-Morgan am 7.30 o'r gloch

**HYDREF 18** Nos Sadwrn Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid Elw at Eisteddfod yr Urdd 2010 . Tocynnau o Siop Inc a Siop y Pethe neu o wefan y Pafiliwn www.pafiliwnbont.co.uk neu dros y ffôn (01974) 831 635

**HYDREF 24** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**HYDREF 24** Nos Wener Twmpath Dawns gydag Erwyd Howells yng Ngwesty'r Hafod, Pontarfynach Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010

**TACHWEDD 14** Nos Cyfarfod cyhoeddus dan nawdd Cangen Plaid Cymru Bro Dafydd yn trafod Tai fforddiadwy gyda Jocelyn Davies AC (Gweinidog Tai) ac Elin Jones AC (Gweinidog Materion Gwledig) yn Neuadd y Penrhyn am 7.30

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. % 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street % 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (% 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer.
Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

## RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

| | |
|---|---|
| **Mrs Morfydd Morris, Eirianfa, 6 Maes Seilo, Penrhyn-coch** | **£20** |
| **Mr Steven Williams, Llys Y Coed, Penrhyn-coch** | **£10** |

**Annwyl Olygydd,**
Fel rheolwr Cartref Preswyl Tregerddan tybed fyddai gan rai o ddarllenwyr y Tincer ddiddordeb i gynnig eu gwasanaeth yn rheolaidd gyda'r gwaith o gludo prydau'n ddyddiol o Dregerddan ( ar gyfartaledd unwaith neu ddwywaith y mis).

Rydym yn gwybod fod pobl yn y gymuned yn gwerthfawrogi gwasanaeth prydau poeth o Dregerddan yn fawr iawn, fodd bynnag er mwyn cynnal y gwasanaeth yma mae'n hanfodol fod gennym wirfoddolwyr sy'n fodlon mynd a'r prydau yma i'r trigolion dan sylw. Telir costau ar gyfartaledd o 42.9 ceiniog y filltir.

Os bydd gan unrhyw un ddiddordeb i fod yn wirfoddolwyr 'Prydau yn y cartref' cysylltwch â Chartref Tregerddan ar (01970) 828657. Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir,
M. Elaine Evans, Rheolwr

# Diolch Dai

Yn y gêm gartref ar gae rygbi Aberystwyth ym Mhlascrug yn erbyn tîm rygbi Castellnewydd Emlyn ar Ebrill 19 cododd Dai England o Bantyglyn yn Llandre ei luman am y tro olaf. Bu wrthi yn ddi-dor am dros ddeng mlynedd fel llumanwr ym mhob gêm gartref ac oddi cartref sydd wedi gofyn am ymroddiad arbennig dros y blynyddoedd bob dydd Sadwrn. Ac fel y reffari druan, yn enwedig oddi cartref, dyw cefnogwyr y gwrthwynebwyr byth yn gweld llygad yn llygad â'r llumanwr. Yn ystod blynyddoedd maith o wasaneth bu'n ysgrifennydd ac yn drysorydd i'r clwb. Gan na fydd yn rhedeg y lein, caiff fwy o gyfle i fwynhau'r wledd o rygbi sydd ar gael ym Mhlas-crug.


Llun: Arwyn Parry Jones

Dai England

## Trysoryddiaeth

Mae Dai hefyd wedi ymddeol o fod yn Drysorydd y Tincer — ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd — dilynodd Elen Evans, Bow Street ym Medi 1998. Diolch yn fawr iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd — mwynhewch yr ymddeoliadau!

## Trysorydd newydd

Trysorydd newydd y Tincer yw Aled Griffiths, 18 Dôl Helyg, Penrhyn-coch Ffôn 01970 828 176 e-bost griffiths95@gmail.com

Daw Aled o Login, Sir Gaerfyrddin, ac mae'n gweithio gyda Bwrdd yr Iaith yn Aberteifi. Diolch iddo am ymgymryd â'r gwaith a dytmuniadau gorau iddo.

## Angen Gofalwr

'Teulu yn chwilio am berson sy'n siarad Cymraeg fyddai ar gael i ddod i'r tŷ yn achlysurol i ofalu am blentyn tair a hanner, ac ambell waith, i warchod gyda'r nos.

Os oes diddordeb, ffoniwch Sioned Puw Rowlands ar 828 604 neu ebostiwch snr@aber.ac.uk, neu galwch draw:
Dol Bebin, Rhydypennau, Aberystwyth SY24 5BE.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'n teipydd, Iona Bailey a raddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Llambed yn yr haf. Cydymdeimnlwn â Iona hefyd ar farwolaeth ei mam-gu - Mrs Gwladys Jones gynt o Dŷ Capel Pen-llwyn — gweler tudalen 9.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mehefin:

£15 (Rhif 60) Mrs Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor.
£10 (Rhif 140) Mrs Elizabeth Jones, 25 Maes Ceiro, Bow Street.
£5 (Rhif 9) Mrs S J Jones, Bryn Drywy, Bow Street.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

ytincer@googlemail.com

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDIOL

## Pen blwydd arbennig

Dathlodd Mair Stanleigh Dolfawr ben blwydd eithaf arbennig ddechrau Gorffennaf. Dymuniadau gorau.

## Ymddeol

Dymuniadau gorau i Beryl Davies, Troedrhiwceir, ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol. Croeso adref hefyd i Catrin sydd wedi treulio y misoedd diwethaf yn crwydro'r byd.

## Llongyfarchiadau

Hoffai Freda Morris, gynt o Neuadd Parc, longyfarch ei dwy wyres, Lowri, Fron, Llanarth ac Angharad o Gapel Dewi ar eu llwyddiant diweddar. Enillodd Lowri yr ail wobr am lefaru rhwng 19 i 25 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae Lowri yn cael ei hyfforddi gan Nerys ei mam. Gwnaeth Angharad yn dda iawn yn ei arholiadau AS mewn Cymraeg, Cerdd a Drama. Mi fyddai eu tad-cu, y diweddar Tom Morris, yn falch iawn o'u llwyddiant.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau arbennig i Aysha Doidge a Claire Maloney ar eu llwyddiant yn eu harholiadau TGAU. Gwnaeth y ddwy yn arbennig o dda.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Eirlys Davies, Caehaidd, ar farwolaeth ei chyfnither yn ddiweddar.

## Croeso

Croeso mawr i deulu ifanc sydd wedi symud i Y Ddôl.



**I ffarwelio â Beryl Davies aeth criw o'i chydweithwyr gyda hi ar y trên o Aberystwyth i Finfordd a chael pryd blasus yng Nghastell Deudraeth. Yn y llun gwelir Dafydd Ifans, Beryl Davies a Llinos Evans.**

# Y BORTH

### Capel y Gerlan

Cynhelir y Gwasanaeth Diolchgarwch Blynyddol nos Wener, Medi 26ain, am 6.00 o'r gloch, pryd y pregethir gan y Parchedig J.E.Wynne Davies, Aberystwyth. Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

### Cydymdeimlad

Bu farw tad Stuart Evans, Cliff House, ym mis Gorffennaf, ac estynnir cydymdeimlad cywir ag ef a'r teulu ar golli rhiant a thad-cu annwyl.

### Llongyfarchion

Llonfyfarchiadau cynnes i Tim, mab ieuengaf Des a Nansi Hayes, Dunstall, ar ei ddyweddiad yn ystod mis Gorffennaf â Rebecca Jones, o'r Betws, ger Rhydaman. Mae Rebecca yn gyfarfwydd i wrandawyr boreol Radio Cymru fel cyflwynydd y rhaglen a ddarlledir rhwng 5 a 7.00

### Cyfarfod Agored Blynyddol RNLI

Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol RNLI Y Borth yng Ngorsaf newydd y Bad Achub nos Wener, 6 Mehefin. Mr Paul Frost oedd y Cadeirydd. Derbyniwyd adroddiadau gan Miss Gill Parry (Ysgrifenyddes), Margaret Griffiths (Cadeirydd Pwyllgor Codi Arian), Mr Ronnie Davies MBE (Rheolwr Gweithrediadau) a Mr Glynne Evans (Trysorydd). Dywedodd Mr Davies i'r Orsaf weithredu o dan anawsterau yn ystod 2007 ar ôl i'r hen adeilad gael ei ddymchwelyd er mwyn codi'r un newydd. Yr oedd rhaid symud y Bad Achub a'r holl weithrediadau i'r Maes Parcio gyferbyn. Roedd yr adeilad newydd yn barod i'w ddefnyddio erbyn mis Rhagfyr 2007. Lansiwyd y Bad Achub 22 o weithiau yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i apeliau am gymorth ar y môr. Achubir dros 7000 o fywydau bob blwyddyn gan yr RNLI ledled y wlad.

Ail-etholwyd Pwyllgor presennol y Bad Achub i wasanaethu dros y flwyddyn nesaf.

### Gorsaf Newydd y Bad Achub

Dydd Sadwrn, 28 Mehefin, agorwyd Gorsaf newydd Bad Achub Y Borth yn swyddogol, gyda Gwasanaeth crefyddol byr, eciwmenaidd, ynghyd â seremoni i drosglwyddo'r allweddi i Mr Ronnie Davies, MBE, Rheolwr Gweithrediadau y Bad Achub. Gobeithid cynnal y digwyddiad yn yr awyr agored, ond gan fod y tywydd mor anwadal, yr oedd rhaid symud y cyfan dan do yn Nhŷ'r Bad Achub. Roedd yr Orsaf yn llawn i'r ymylon, gyda criw'r Orsaf, pentrefwyr, cefnogwyr ac ymwelwyr - heb anghofiio Seindorf Arian Aberystwyth. Dechreuodd y prynhawn gyda'r Anthemau Cenedlaethol. Croesawyd y gynulleidfa gan Mr Paul Frost (Cadeirydd RNLI y Borth), cyn iddo gyflwyno' r gwestai pennaf, Mr George Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Arfordirol, Poole. Mewn seremoni fer, trosglwyddwyd allweddi'r Orsaf newydd gan Mr Rawlinson i Mr Ronnie Davies, a'u derbyniodd ar ran Criw Y Bad Achub. Gofynnwyd gan Mrs Margaret Griffiths (Cadeirydd Pwyllgor Codi Arian) i Mr Rawlings gyflwyno dau ddyfarniad i aelodau o'r Pwyllgor, sef Miss Gill Parry, a ddaeth yn Reolwr Anrhydeddus yr RNLI am Oes, a Mrs Elizabeth Evans, a dderbyniodd Fathodyn Efydd yr RNLI. Cyflwynwyd tuswau o flodau i'r ddwy gan Mrs Margaret Griffiths, cyn iddi ddiolch,ar ran bawb, i Mr George Rawlinson. Dilynwyd y seremoni gan y Gwasanaeth crefyddol, a arweinwyd gan y Parch. Ddr David Williams. Darparwyd cyfeiliant i'r emynau gan Seindorf Arian Aberystwyth.
Daeth prynhawn bythgofiadwy i ben gyda Derbyniad a bwffe yng Nghlwb Bryn Rodyn.

### Dydd Sul Y Môr

Dydd Sul, 13 Gorffennaf, cynhaliwyd Gwasanaeth yn Eglwys Sant Mathew i nodi Dydd Sul y Môr. Ymysyg y gynulleidfa yr oedd aelodau o griw a swyddogion Bad Achub Y Borth. Gofalwyd am y Gwasanaeth gan y Parch Ddr. David Williams. Yr organydd oedd Mr Norman Thomas. Gweithredodd Mr Peter Davies a Mr Louis Delahaye (Bad Achub Y Borth) fel Ystlyswyr.

### Cymorth Cristnogol

Anfonwyd £571 at Gymorth Cristnogol eleni gan Eglwysi'r Borth a'r Cylch. Trwy garedigrwydd Margaret Griffiths a Glynne Jones, Ceffyl Y Môr, fe godwyd dros £327 o ganlyniad i Fore Coffi yno ddydd Sadwrn, 7 Mehefin. Casglwyd gweddill yr arian mewn gwasanaethau eciwmenaidd yng Nghapel y Gerlan yn ystod y flwyddyn. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr Apêl.

### MBE

Llongyfarchiadau i Mrs Elizabeth Murphy, Lôn Wastad, a wobrwywyd â Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines ym mis Mehefin. Mae Mrs Murphy yn Sefydlydd a Chadeirydd yr Elusen "Ffagl Gobaith" yn Aberystwyth, sydd yn ymroddedig i ofal dioddefwyr cancr yng Nhgeredigion. Yn 2006 derbyniodd Mrs Murphy Wobr y Frenhines am Wasanaethau Gwirfoddol yn y Gymuned. Ym mis Mawrth eleni, yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth, cyflwynwyd plac crisial iddi mewn cydnabyddiaeth o'i gwaith gyda'r elusen: trefnwyd yr achlysur gan Fanc Barclays ar y cyd a Menter, Aberystwyth.

### Genedigaethau

Ganwyd merch, Elen Haf, i Grace a Mike Bailey, Roseland, ddydd Gwener, 20 Mehefin, yn chwaer fach i Mali a Morwen. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r holl deulu.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Margaret Owen, Glanwern, ar enedigaeth ei hwyres gyntaf, Mia Haf, ddydd Sul, 13 Gorffennaf. Mae Mia fach yn ferch Martyn a Wendy Owen, Sain Ffagan, a nith gyntaf i Derwyn.

### Gwibdeithiau

Gyda gwyntoedd cryfion a glaw trwm, yr oedd tywydd wythnos heuldro'r haf yn fwy tebyg i'r fath dywydd a ddisgwylir yn y gaeaf nag yn hirdyddiau'r haf. Er hynny, mwynhaodd SYM Y Borth wibdaith ddiddorol a chymharol o sych i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, ger Caerfyrddin, ddydd Mercher, 18 Mehefin. Diolch i Margaret Griffiths a drefnodd y wibdaith.

Y diwrnod canlynol, ddydd Iau, 19 Mehefin, aeth Clwb yr Henoed ar wibdaith i Landudno. Roeddynt braidd yn hwyr mewn cyrraedd, ar ôl cylchdaith annisgwyl o amgylch Gogledd Cymru, pan aeth gyrrwr y bws ar gyfeiliorn, ond, er hynny, fe gafwyd llawer o hwyl a sbri yn ystod y prynhawn. Aeth rhai o'r aelodau ar daith ar y tram i Ben y Gogarth, tra aeth eraill am dro ar y promenad neu i siopa yn y dref. Diolch i Joy Cook am drefnu'r daith.

### Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Haf diflas a fu, eleni, ond ddydd Mawrth, 24 Mehefin, sef Dygwyl Ifan Canol Haf, agorwyd ffenestr yn y gwyll, ac roedd yr haul yn tywynnu'n braf drwyddi pan gychwynnodd 50 o deithwyr hapus ar wibdaith flynyddol Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch.

Mae'n rheol anysgrifenedig yng nghyfansoddiad y Gymdeithas fod rhaid cael stop coffi tuag awr ar ôl cychwyn ar unrhyw daith, ac felly daeth y stop cyntaf yn Nhafarn y Wynnstay Arms, Llanbryn-mair, i fwynhau'r coffi a'r heulwen gynnes. Ymlaen wedyn i Lanwnog, ac i fynwent Eglwys St Gwynog, i ymweld â bedd John Ceiriog Hughes Ceiriog. Talwyd teyrnged gan Y Parchg Elwyn Pryse i fardd oedd yn un o feirdd mwyaf poblogaidd Oes Fictoria ac awdur "Nant y Mynydd" a "Dafydd y Garrreg Wen". Darllenodd Mrs Nansi Hayes gerdd gan Sylfanus Richards, sef "Wrth fedd Ceiriog".

Wrth fynd heibio i Lanllwchhaearn fe glywsom gan y Parchg Elwyn Pryse hanes Henry Williams, Ysgafell, a erlidiwyd am ei gredoau Piwritanaidd, gan dreulio naw mlynedd yn y carchar; achubwyd ei deulu rhag newyn gan dyfiant gwyrthiol o wenith mewn cae a enwyd wedyn "Cae'r Fendith". Yn ddiddorol iawn, fe ddarganfuwyd bod un o aelodau'r Gymdeithas, sef Mrs Eryl Evans, yn ddisgynnydd uniongyrchol Henry Williams.

Yn y Drenewydd fe gafwyd saib dwy awr i gael cinio, i grwydro'r farchnad wythnosol ac i ymweld â'r Amgueddfa ac arddangosfa Robert Owen, diwygiwr cymdeithasol a dyngarwr. Trodd y bws, wedyn, i gyfeiriad Ceri a'r Ystog (Churchstoke) cyn croesi'r ffin a rhedeg i lawr drwy olygfeydd hardd y Gororau i Drefesgob (Bishop's Castle) a Craven Arms. Cyhoeddodd y Parchg Elwyn Pryse ein bod, erbyn hyn, wedi teithio drwy bum sir a dwy wlad. Manteisiwyd

ar y cyfle i siopa ac i gael te yng Nghanolfan Bwyd Llwydlo (Ludlow) cyn troi'n ôl i'n gwlad ein hunain ac i'r Ganolfan Clawdd Offa yn Nhref-y-Clawdd. Stop olaf y dydd oedd yng Ngwesty'r "Severn Arms" ym Mhen-bont lle mwynhawyd swper blasus. Diolchwyd gan Mr Gwynfryn Evans i drefnwyr y wibdaith. Mae'n debyg bod sawl un wedi cyfrannu at lwyddiant y dydd, gan gynnwys Y Parchg Elwyn a Mrs Tegwen Pryse a'r Athro Des a Mrs Nansi Hayes.

Cynhelir cyfarfod cyntaf sesiwn 2008-9 yn Festri'r Gerlan nos Fercher, 8 Hydref am 7.30p.m. Treulir y noson yng nghwmni y Parchg W.J. a Mrs Gwenda Edwards.

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Roy a Freda Darby, Cae Gwylan, a ddathlodd eu Priodas Aur ar y 21ain o Fehefin.

## Y Lleng Brydeinig

**Dydd yr Hen-Filwyr**
Marciwyd Dydd yr Hen-Filwyr gan y Lleng Brydeinig yn Y Borth gyda chyngerdd yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 25 Mehefin. Mr Aran Morris MBE oedd y Cadeirydd ac fe gyflwynwyd y perfformwyr gan y Parch Ddr. David Williams. Trefnwyd rhaglen o eitemau offerynol gan Mr Geraint Evans a'r teulu Hassan. Siaradodd Mr Iori Lewis, noddwr sirol y Lleng Brydeinig, am rai o'i atgofion am yr Ail Ryfel Byd, pan oedd yn ymladd gyda'r Wythfed Fyddin ("Llygod yr Anialwch") yng Ngogledd Affrica, yn yr Eidal ac yn Ewrop. Ar ôl egwyl a'r cyfle i fwynhau cwpaned o de, arweiniwyd aelodau a ffrindiau mewn canu rhai o'n hen ganeuon cyfarwydd.
Diolchir i bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd ac i Joy Cook, Freda Darby a Margaret Griffiths a ofalodd am y gegin.

## Gweithred Coffa

Digwyddodd Gweithred Coffa wrth Gofgolofn Ryfel Y Borth nos Fercher, 27 Awst. Er gwaethaf y niwl a'r glaw, ymgasglodd tuag ugain o bobl o gwmpas y Gofgolofn ar gyfer gwasanaeth byr yng ngofal y Parch Ddr David Williams.

Dilynwyd y Gweithred gan luniaeth ysgafn yn Neuadd Gymunedol Y Borth lle'r ymunwyd â'r gynulleidfa gan aelodau eraill o'r Lleng Brydeinig. Jo Jones gyflwynodd yr Uwchgapten Ray Hobbins, Byddin yr Iachawdwriaeth, a siaradodd yn ddiddorol am ei yrfa fel Cerddor a Chanwr Tiwba yn un o Gatrodau Cafalri y Fyddin Brydeinig. Diolchwyd iddo gan Mr Aran Morris MBE.

## Sefydliad Y Merched

Tro Y Borth, eleni, oedd trefnu'r Helfa Drysor Sirol, a ddigwyddodd nos Wener, 11 Mehefin. Cyhoeddwyd Caerwedros yn enillwyr ar ôl noswaith hwylus, a ddaeth i ben yn Nhafarn Ceffyl Y Môr. Diolch i Lorraine Moore a Margaret Griffiths a drefnodd y noson.
Cynhaliwyd cyfarfod olaf yr haf yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 16 Gorffennaf . Y Cadeirydd oedd Margaret Griffiths. Roedd y noson yng ngofal Joy Cook ac Elizabeth Evans, oedd wedi trefnu Trysor Helfa y tu mewn ac o gwmpas y Neuadd. Yr enillwyr oedd Olwen England, Margaret Griffiths, Susan James ac Alicia Moss, a dderbyniodd far bach o siocled yr un am eu hymdrechion.

"Merched y Calendr" oedd thema fflot SYM yng ngorymdaith Carnifal Y Borth, ddydd Gwener, 1af Awst. Er mawr siom (neu, efallai, er mawr ryddhad) y rhai oedd yn disgwyl gweld y rhiannedd yn efelychu Merched gwreiddiol Y Calendar, yr oedd pawb yng ngwisg misoedd y flwyddyn. Diolch i bawb a gyfrannodd at hwyl y dydd.

## Marwolaeth

**Mrs Barbara Gladys Hughes**
Dydd Gwener, 4 Gorffennaf, yn Ysbyty Machynlleth, bu farw'n dawel Mrs Barbara Hughes, Cae Gwylan, ar ôl afiechyd hir. Yr oedd yn 85 oed. Yr Hybarch Hywel Jones, Archddiacon Ceredigion gynt, ofalodd am y gwasanaeth angladddol, ddydd Gwener, 18 Gorffennaf, yn Eglwys Sant Mathew, lle buasai Barbara yn aelod ffyddlon a gweithgar. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w merch, Mrs Susan Rees, ac i'r holl deulu.

## Dau De a Dawns

Cynhaliwyd dau De a Dawns llwyddiannus yn Neuadd Gymunedol y Borth yn ystod yr haf, a'r naill, ar y 23ain o Orffennaf, er budd Y Lleng Brydeinig, a'r llall, ar y 13eg o Awst, er budd Eglwys Sant Mathew. Trefnwyd y ddau ddigwyddiad gan Mrs Rosa Davies a Mr John Taylor. Ymunwyd â phentrefwyr ac ymwelwyr gan ddawnswyr Aberystwyth. Mwynhaodd pawb y dawnsio a'r lluniaeth blasus.

## Breninesau Y Borth

Daeth adeg Carnifal Y Borth unwaith eto ar ddiwedd mis Gorffennaf, ac fe goronwyd Rachel Swift, 14 oed, yn Frenhines Y Carnifal, ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf. Coronwyd Rachel gan Michaela Bailey, Brenhines Carnifal 2007. Yng ngosgordd y Frenhines, ddydd y Carnifal, 1 Awst, roedd Stacey Bishop, Louise Drakely, Amy Moss, Gwenllian Smith ac Aidan Swift.

Dydd Sul, 27 Gorffennaf, ar un o ddiwrnodau mwyaf heulog a chynnes yr haf, fe goronwyd Bethan Davies yn Frenhines RNLI Y Borth gan Mrs Margaret Griffiths (Cadeirydd Pwyllgor Codi Arian yr RNLI). Cynhaliwyd y seremoni y tu allan i Orsaf y Bad Achub, lle difyrrwyd y dyrfa fawr o wylwyr gan Ddawnswyr Lein Y Borth. Yn ngwasanaeth y Frenhines Bethan roedd Isabella Ashford, Tasha Galliford, Emily Homer a Holly fach. Cymerasant hwythau le blaen yn ngorymdaith y Carnifal ar y 1af o Awst.

## Carnifal Y Borth

Unwaith eto roedd Wythnos y Carnifal yn llwyddiant ysgubol. Trefnwyd llawer o weithgareddau yn ystod yr wythnos, gan gynnwys karaoke, rafflau, cystadlaethau dominos a dartiau, cwis tafarn, coroni Brenin a Brenhines Cors Fochno a Ras yr Hwyaid Pastig. I'r plant bach yr oedd picnic i'r Tedi Bers a gwobr am y castell tywod gorau. Y digwyddiad olaf oll oedd "Cinio ar y Traeth" mewn gwisg ffansi, nos Wener, 22 Awst.

Yn ffodus iawn, trodd y tywydd yn sych, os braidd yn wyntog, Ddydd y Carnifal, ac, fel bob blwyddyn, daeth lluoedd o bobl i fwynhau yr orymdaith liwgar a swnllyd a ddirwynodd ei ffordd ar hyd y Stryd Fawr, lan i'r Graig ac yn ol i'r Meysydd Chwaraeon. Yno, yr oedd lluniaeth ar gael, cystadlaethau i'r plant a stondinau yn gwerthu pob math o nwyddau.

Diolchir yn fawr iawn i Bwyllgor y Carnifal am eu gwaith caled ac i bawb a gymerodd ran neu a gefnogodd weithgareddau'r wythnos.


MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.

Ffon: 01970 820166

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# LLANDRE

## Merched Y Wawr Llanfihangel Genau'r- Glyn

Yn dilyn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai, pryd y dewiswyd y Pwyllgor newydd gogyfer â 2008/09 aethom am drip fin nos ym mis Mehefin. Roedd yn noson arbennig o braf a throdd trwyn y bws am y Gogledd ac i bentref Dinas Mawddwy. Yno croesawyd ni gan Gwmni Dãr Cerist i ymweld â'i safle ac i weld sut mae'r broses o gynhyrchu dŵr yn digwydd. Oddi yno aethom i'r Llew Coch i wledda a chael pryd o fwyd bendigedig. Ar ôl y pryd cawsom wledd arall pan ddaeth Olwen Evans o fferm Tyn y Braich, Dinas Mawddwy, atom i sôn am nofel Angharad Price O tyn y Gorchudd. Sonir yn y nofel am dri brawd a anwyd yn ddall i deulu Tyn y Braich. Hon oedd y nofel a enillodd y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro Tyddewi yn 2002. Gan fod gãr Olwen yn nai i'r brodyr, cawsom weld lluniau o'r teulu a thoreth o hanesion difyr amdanynt ac i ddiweddu'r noson cawsom weld ffilm fer am fywyd y tri brawd. Teimlwyd fod y noson hon wedi bod yn ddiweddglo bendigedig i flwyddyn o weithgaredd y Gangen a diolchwyd i Mrs. Glenys Evans (Llywydd), Mrs. Mair England (Ysgrifennydd) ac i Llinos Dafis (Trysorydd) am eu gwaith yn trefnu'r rhaglen dros y flwyddyn, ac yn arbennig am drefnu i ni gael mynd i Ddinas Mawddwy.
Bydd y Gangen yn ail gychwyn ar ôl seibiant dros yr haf ar y drydedd nos Lun ym mis Medi.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i'r canlynol sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar: Nano Davies, Dolmeillion; Henry James, Brynllys ac Ann Thomas, Glyncoed.
Hefyd i Gwenda James, Taigwynion sydd yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwenda a Erddyn James, Taigwynion ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd merch fach i Llŷr a Rhian yn ddiweddar.

## Graddio

Llongyfarchiadau i Elen Vivian Edwards, Pen-y-groes ar ennill gradd BSc gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn UWIC.

## Croeso

Croeso i Mr Vincent sydd wedi symud i Tanglewood, Lôn Glanfred, Mr a Mrs Bell i Glanant a Mr a Mrs Saunders i Drawscoed. Gobeithio byddant yn hapus yn ein plith.

## Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i Glyn a Margaret Williams, Bryngolau, ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol.

## Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Os hoffech gopi o Galendr 2009 cysylltwch â Betty Williams, Greenbank, Rhif ffôn : 828335

## Dymuniadau da

Ein cofion ar Bill Thomas, Troed-y-bryn sydd yng Nghartref Tregerddan.

## Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Osian Penri, Taigwynion, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau lefel A a phob dymuniad da yn y Coleg Meddygol yng Nghaerdydd.

## Eglwys San Mihangel Genau'r-glyn

Am yr ail flwyddyn yn olynol bu raid cynnal y Ffair Haf a Barbiciw yn Ysgoldy Bethlehem, oherwydd y tywydd gwlyb a gafwyd ar yr 18fed o Fehefin. Er yr holl anawsterau fe ddaeth llu o ffrindiau a phentrefwyr ynghyd i wneud noson lwyddiannus. Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr Eric Ellis-Jones, a agorodd y Ffair, gan yr Archddiacon Yr Hybarch Hywel Jones. Rydym yn ddiolchgar i'r gŵr gwadd am ei haelioni. Gwnaed elw o dros £1,500 tuag at yr Eglwys, ac mae'r Ficer a Chyngor Plwyfol yr Eglwys yn diolch i bawb yn enwedig y gwirfoddolwyr a ysgwyddodd gwahanol ddyletswyddau a'r gymuned am ei haelioni.

## Sul y Cynhaeaf (05/10/08)

Eleni rhoddwyd gwahoddiad i gôr lleol arall i ddod atom ar derfyn Sul y Cynhaeaf - sef Cantre'r Gwaelod, ac rydym yn ddiolchgar eu bod wedi derbyn. Maent yn arbenigo mewn canu gwerin ac rydym yn disgwyl yn eiddgar am noson hwylus yn eu cwmni.
Edrychwn ymlaen at gael cynulleidfa gymeradwy i fwynhau rhai o dalentau'r ardal. (Rhaglenni £5, plant am ddim). Fe fydd yna luniaeth yn Ysgoldy Bethlehem ar derfyn yr oedfa a chroeso i bawb i gyfarfod a'r Côr a chymdeithasau.

## Treftadaeth Llandre

Fe fydd ein cyfarfodydd yn ail ddechrau ar y 25ain o Fedi, yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 o'r gloch, pan ddaw Susan Fielding i'n hannerch ar y testun — Henebion Ceredigion.

## Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Gan ein bod yn ymuno a Changen Tal-y-bont ym mis Med i glywed Deborah Griffiths o Aberteifi yn sôn am ei phrofiad yn y 'Coal House' bydd ein cyfarfod ar 20fed o Hydref yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 yh yn gyfle i ni ail-ymaelodi (£13) ac i glywed ieuenctid o'r pentref y ein diddanu. Croeso i bawb.

## EISTEDDFOD YR URDD 2010

Pwyllgor Apêl Llandre, Borth a Dôl-y-bont

Rhestr Digwyddiadau

Nos Iau 20/11/08
**PARTI GEMWAITH**
'TLWS'Banc yr Eithin
Llandre 7.30 yh
Nia 820419 Sara 822029

Nos Lun 15/12/08
**NOSON NADOLIGAIDD**
dan nawdd y gwahanol gymdeithasau lleol
Tal mynediad Bethlehem
Llandre 7.30 yh
Llinos - 871615

Nos Sadwrn - 23/01/09
**CINIO SANTES DWYNWEN**
Cinio 3 cwrs ac adloniant gan Tecwyn Ifan £25
Clwb Golff y Borth 8.00 yh
Nans - 828487
Gwenda 822065

Nos Sadwrn 31/01/09
**NOSON 'GRAND SLAM'**
Yng nghwmni John Hefin
Tal mynediad Neuadd y Borth 8.00 yh
Gwenda - 822065

Dyma fraslun o ddigwyddiadau sydd ar y gweill gan y Pwyllgor ar hyn o bryd. Ceir rhagor o fanylion yn agosach i'r dyddiad ond yn y cyfamser gellir cysylltu â'r Ysgrifenyddion - Eric a Gwenda ar
01970 822065

# GOGINAN

### Llwyddianau

Cafodd Lisa Saycell, Bryn Briallu, bythefnos lwyddiannus ym mis Mehefin gan gychwyn drwy raddio gyda LLB anrhydedd 2:1 yn y gyfraith.



Yr wythnos ganlynol gwireddwyd breuddwyd pan enillodd Lisa yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Roedd yn marchogaeth ei chaseg saith mlwydd oed, Toyside Lucky Lowri, yn nosbarth y cesig dan gyfrwy. Aeth ymlaen i ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth y cobiau dan gyfrwy. Roedd yn brofiad arbennig cael ennill yn y prif gylch, llawer o ddiolch i'r cefnogwyr yn yr eisteddle am eu cefnogaeth frwd.

Mae Lisa a Lowri yn cystadlu mewn sawl maes, byddant yn cystadlu yn Sioe y Cobiau a'r Merlod Cymraeg yn Aberhonddu ym mis Medi. Mae hon yn sioe dros ddau ddiwrnod gyda cystadlu mewn neidio, hyweddu, traws gwlad etc. Bu Lisa a Lowri yn llwyddiannus y llynedd ac mae Lisa hefyd wedi ennill y gystadleuaeth ar ei cheffyl arall Grofield Abigail.



### Pen blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Mark Evans, Gwarllan, ar ei ben blwydd yn ddeunaw oed ar Fedi 20fed. Pob lwc i ti Mark i'r dyfodol.

Dathlu ei ben blwydd yn un ar hugain ddiwedd mis Awst oedd Richard Jones, Melody. Pob lwc iddo ef i'r dyfodol hefyd.

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i ddau o frodorion Cwmbrwyno, mae Jim Kitte, Haulfryn ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforus a Hywel Jones, Bwthyn, yn ysbyty Bron-glais.

### Swyddi Newydd

Mae gan Nigel a Sue Hellawel, Valley Forge swyddi newydd, Nigel yn Llaethdy Rachel a Sue yn y swyddfa yn Mount Trading. Pob lwc i'r ddau.

### Priodas

Priodwyd James Carver, unig fab Tim a Angela Carver, Box Cottage a Lucy Havard, merch hynaf Robert a Dorothea Havard, Waunfawr yng Nghwesty Plas Dolguog, Machynlleth ar Orffennaf 19. Braf oedd i'r ddau gael dathlu gyda'u perthynasau o Abertawe a Swydd Hampshire. Treuliodd y ddau eu mis mêl yng Nghuba. Llongyfarchiadau calonnog iddynt.



James a Lucy Carver

# DÔL-Y-BONT

### Newid Swydd

Ar ôl 12 mlynedd o deithio i Aberaeron fel Swyddog Tir Cyffredin Hawliau Tramwy Cyngor Sir Cerdigion bydd Ann Elias, Roganann yn symud i swydd newydd. Penodwyd Ann fel Swyddog Projectau a Rhaglenni i Gynllun Trafnidiaeth Canolbarth Cymru — cynllun sy'n delio ag ariannu trenau, bysus, gwelliannau ar y ffyrdd,beicio a cherdded. Mae'r ardal y bydd Ann yn gyfrifol amdani yn cynnwys Ceredigion, Powys ac ardaloedd o Sir Feirionnydd. Galluoga'r swydd yma y bydd Ann yn medru gweithio o adre neu o'r swyddfa yn Aberystwyth a bydd yn teithio i'r gwahanol ardaloedd o fewn i'r dalgylch i ddod a'r bobl a syniadau newydd at ei gilydd. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob hwyl gyda'r swydd newydd.

### Genedigaeth

Ganwyd merch fach o'r enw Molly i Becky a Jason Hughes, Captain's House. Mae hi hefyd yn wyres i Lindy a Gareth Hughes, Y Warren. Llongyfarchiadau iddynt fel teulu.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Harriet Billingsley, Dolwar, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU yr haf yma a phob hwyl iddi yn y 6ed dosbarth.



Lucas ac Elizabeth Stringer

### Dwy briodas

Ar 12 Gorffennaf priodwyd Lucas Stringer ac Elizabeth Potts, yng Nghapel y Babell. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Wyn Rhys Morris ac Andy Herrick.
Ar 31 Awst priodwyd Nia Cory, Bryngwyn ac Emyr Davies yn Eglwys Ceinewydd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau bâr ifanc ar achlysur eu priodas.

### Pen blwyddi arbennig

Bydd yna ddathlu mawr yn y pentref ddydd Sul, 14 Medi, gan y bydd Gareth Morgan, Glen Side yn dathlu ei ben blwydd yn 80 oed a bydd yr efeilliaid Hannah a Jennifer Potts, Glen Avon yn dathlu eu pen blwydd yn 18 oed. Pen blwydd hapus iawn iddynt eu tri!

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN
TE PRYNHAWN
Yn y Cartref
Sadwrn 20.9.2008 am 2.30 o'r gloch
Agorir gan:
Yr Arglwydd Elystan Morgan
Croeso cynnes i bawb

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
Lewis a Lorraine
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y
gorau ym Mhrydain

Carl Evans
a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU
IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm
(toeon, gwteru, fasias,
tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth
ffoniwch Trefor ar
01970 820 934 neu
07967 654720

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN



### Ofydd er Anrhydedd

Llongyfarchiadau mawr i Mr Maldwyn James, Afallon, a gafodd ei urddo er anrhydedd, a'i dderbyn i'r orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, eleni. Cynhaliwyd y seremoni yn yr awyr agored ar fore dydd Gwener 8ed o Awst, yng nghylch yr orsedd.
Daliodd y tywydd yn sych y tro hwn, gan i seremoni fore Llun orfod gael ei gynnal yn y Babell Lên. Y prifardd Dic Jones wrth gwrs oedd yr Archdderwydd, a derbyniodd tua 36 i'r orsedd y bore hwnnw.
Roedd rhai o Gapel Bangor yn bresennol ac yn teimlo yn falch iawn fod ein pentref y bore hwnnw ar fap yr orsedd fel petai. Wrth gwrs 'rydym wedi llawenhau yn y gorffennol, pan dderbyniaswyd merched o'r ardal parthed eu graddau coleg mewn Cerdd a Chymraeg.

Derbyniwyd Maldwyn fel "Maldwyn o'r Llan" am ei waith yn stiwardio'r eisteddfod, yn organydd yn Llangorwen dros bum deg o flynyddoedd, ac hefyd am ei waith fel clerc y Gymuned yno yn y gorffennol.

Gwelwyd ef am y tro cyntaf ar lwyfan y pafiliwn y prynhawn hwnnw, yn seremoni enillydd y Gadair. Dymuniadau gorau iddo, a hyderwn ei weld y flwyddyn nesaf yn Eisteddfod y Bala.

### Sioe Capel Bangor

Cynhaliwyd sioe lwyddiannus iawn eleni eto ar gaeau Maes Bangor ac mi 'roedd y tywydd yn ffafriol iawn. Cafwyd cystadlu brwd ymhob adran ac mi 'roedd yna nifer o stondinau o amgylch y cae. Llywyddion y sioe eleni oedd Mr. a Mrs. Elfed a Helen Lewis, Glanrheidol. Mae y ddau yn adnabyddus iawn o fewn yr ardal gan eu bod newydd ymddeol o'u gwaith fel milfeddygon. Bu'r ddau yn brysur iawn drwy'r dydd yn mynd o amgylch y cae ac yn cyflwyno y prif wobrau yn y gwahanol adrannau. Eu tasg olaf oedd dewis yr anifail gorau ar y cae ac mi aeth y wobr eleni i Tegwen Jones a'r teulu Clawdd Melyn Penrhyn-coch. Eleni am y tro cyntaf cyflwynodd teulu Glasfryn gwpan hardd er cof am John yn rhoddedig i'r ceffyl gorau yn adran y Cobiau ifanc tair oed neu lai. Yr enillydd oedd Teulu Frongoy, Pennant.
Hoffai y pwyllgor ddiolch o galon i Deulu Keegan, Maes Bangor, am y defnydd o'r cae ac i Deulu Cwmwythig am eu cydweithrediad. Diolch i bawb a fu yn stiwardio drwy y dydd, i Lynne a Rhydian am eu gwaith da ar yr uchelseinydd, i'r rhai fu yn casglu arian i gynnal y sioe ac i bawb a fu yn cystadlu ac yn cefnogi

### Priodas

Priodwyd Benjamin Ling, Cefnmelindwr â Glenda Benjamin Llangeitho ar Fai 24ain. Dymuniadau gorau i'r ddau yn y dyfodol.

### Dyweddïad

Llawenydd yw cofnodi dyweddïad Meinir Elenid Lewis, Deiniol, Pen-llwyn yn ddiweddar, â Huw Euron Jones Caerffili (Daren Pobl y Cwm), a hynny ar Ynys Creta, rhamantus iawn!! Llongyfarchiadau iddynt a dymuniadau da i'r dyfodol.

### Pen blwydd

Cyfarchion i Mrs Ann Edwards, Hyfrydle ar ei phen blwydd arbennig yn ddiweddar.

### Ysbyty

Da clywed fod Mr Hywel Jones, Awel Deg, yn gwella wedi llaw-driniaeth feddygol yn ddiweddar.

Hefyd, bu Mrs Dilwen Over, Eirianfa yn cael llaw driniaeth feddygol ar ei bigwrn ond wedi dod adref erbyn hyn.

Deallwn fod Ms Ann Louise Davies, Lleifior, hefyd wedi bod yn yr ysbyty.

Cafodd Mr Iwan Jones, Tangeulan, ddamwain tractor yn Nhal-y-llyn yr haf yma. Bu yn ffodus na chafodd ormod o niwed, a'i fod yn teimlo yn well erbyn hyn.

Hefyd, gwnaeth Shaun Dryburgh, Maesmelindwr, niwed i'w ysgwydd mewn chwaraeon. Gwellhad llwyr a buan i chi i gyd.

### Diolch

Dymuna Yvonne a Catherine Bonner, Maesawelon, Llwyn Teifi Isaf, Ystumtuen, ddiolch yn fawr iawn i bobl yr ardal, am y cardiau, anrhegion, y gweddïau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymweliad â Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Colledion

Trist iawn yw gorfod cofnodi pedwar o farwolaethau yr haf eleni.

Mr Mike Bentham, Cefnmelindwr
Sydyn iawn oedd marwolaeth Mr Mike Bentham, M &C Cabs. Gwyddom nad oedd yn hwylus a'i fod yn yr ysbyty yn disgwyl triniaeth, ond siom oedd clywed am ei farwolaeth ar 9ed o Fehefin.

Roedd yn adnabyddus, gan ei fod yn rhedeg cwmni tacsis llwyddiannus iawn. Tacsi ar ran ysgolion, unigolion neu i unryw faes awyr, lle bynnag fyddech am fynd, byddai Meic yn trefnu. Roedd yn ãr caredig, bob amser yn cefnogi mudiadau lleol, yn enwedig yr ysgol.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Dewi Sant ar 16eg o Fehefin, dan arweiniad y Parchg John Livingstone. Cydymdeimlwn â'i wraig Caroline, ei feibion Chris, Peter a Daniel, ei fam yng nghyfraith Doris a'r cysylltiadau eraill.

**Mr David Walker, Swyddfa Bost gynt.**
"Ni chafodd Mr Walker, yr ymddeoliad yr oedd yn haeddU." Dyna eiriau Dorothy Tannant, un o ffrindiau y teulu, a gyflwynodd deyrnged haeddianol ddydd ei angladd 12ed Awst yn Amlosgfa Aberystwyth.

Ganwyd ef yn un o 9 o blant yn Wombourne, ger Wolverhampton. Bu yn gweithio mewn siop Bapurau yn Penn, a daeth i fyw i Benrhyn-coch ymhen amser, a rhedeg y Swyddfa Bost yno. Wedyn i'r Exchange Stores Capel Bangor, cyn symud i Swyddfa Bost y pentref, lle y bu dros ugain mlynedd tan ei ymddeoliad.

Roedd yn ãr bonheddig, caredig ac ystyriol bob amser yn barod i helpu a chynorthwyo unrhyw un. Roedd yn ryfeddol gyda'r henoed, yn barod i estyn cymorth at lenwi ffurflenni ac ati pan fo'r angen.

Yn wir, cyfoethogodd fywydau lawer, cans y swyddfa bost oedd canolfan y pentref, a thrist iawn oedd colli'r cyfleusterau ar ôl ymddeoliad Dave.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Mrs Walker, Richard y mab o Ganada, ei wraig Rhonda ( a fethodd fod yn bresennol yn yr angladd) y teulu ac unryw gysylltiad arall. Arweiniwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parchg Richard Lewis, Bow Street.



## Myfyrwraig y Flwyddyn

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Rhiannon Powell, 25 Stad Penllwyn, ar dderbyn gwobr HND/FDSc Cynlluniau Ceffylaidd ar ddiwedd y tymor academaidd eleni. Pasiodd ei diploma HND mewn Astudiaethau Ceffylau o Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Aberystwyth. Mae'n gyn ddisgybl Ysgol Pen-llwyn a Phenweddig, ac yn mynd yn ôl i'r coleg i ddilyn cwrs un blwyddyn BSc Astudiaethau Ceffylau.
Mae Lowri bob amser wedi bod yn ei hafiaith yn ymwneud â cheffylau, felly pa ryfedd iddi wneud mor dda. Pob lwc a dymuniadau gorau i ti Lowri yn ystod y cwrs flwyddyn nesaf, ac hefyd i'r dyfodol.

**Mrs Blodwen M Evans, Brynsiriol**
Yn sydyn iawn yn ysbyty Bron-glais, bu farw Mrs Blodwen Evans, ar 15ed o Orffennaf yn 82 mlwydd oed. Adnabyddir hi fel Blod, yn un o dri o blant Mr a Mrs Jenkins, Ellesmere, y diweddar Jackie ac Eva Joan ei chwaer.

Tyfodd i fyny yng Nghapel Bangor, a mynychodd ysgol gynradd Pen-llwyn. Dechreuodd weithio mewn siop esgidiau Mortons, cyn symud i'r siop wlan S N Cooke, ble y rhoddodd wasanaeth clodwiw nes y bu i'r siop gau lawr. Symudodd Blod wedyn i Morgans y Gemydd ac aros yno tan ei hymddeoliad.

Roedd yn un o aelodau cyntaf pwyllgor gwaith neuadd y pentref, a hynny cyn ei adeiladu. Dechreuwyd cronfa yn y pedwardegau, a bu yn ffyddlon iawn yn codi arian, o gyngherddau, gyrfaon chwist, dramâu ac ati, a gynhelir y pryd hynny yn hen ysgoldy'r capel. Roeddynt yn ddyddiau difyr.

Roedd hefyd yn aelod o gapel Pen-llwyn a bu yn ffyddlon i wasanaethau'r bore, tan dechreuodd ei hiechyd ddirywio. Priodwyd hi ag Emrys yn y capel ym 1950. Roedd ganddynt gonsyrn mawr am eu gilydd, ac roedd colli Emrys ddechrau'r flwyddyn, yn ergyd drom iddi. Teimlai unigrwydd dwfn, a methodd ddod i delerau â'r sefyllfa.

Roedd yn gymeriad eithaf annibynol, yn gymen a thaclus, a theimlai yn flin pan gorfu iddi ddibynu ar eraill wedi colli ei hiechyd.

Byddai ffrindiau yn ei chynorthwyo a rhai yn ei ffonio yn aml, er mwyn torri ar yr undonedd.

Edrychai ymlaen at debygolrwydd ei chwaer yn symud i fyw i'r cyffiniau, ond nid felly y bu.

Arweiniwyd gwasanaeth ei hangladd yng nghapel Pen-llwyn ar Orffennaf 22ain, gan y Parchg Ifan Mason Davies. Yr organydd oedd Mrs Enid Vaughan, a rhannwyd y taflenni gan Mr J E Morris. Darllenodd y gweinidog deyrnged wedi ei pharatoi gan Mr Martin Davies, yn cydymdeimlo â'r teulu a ffrindiau oll.

**Mrs Mary Gwladys Jones Tŷ Capel gynt**
Bu farw Mrs Gwladys Jones, Hafan y Waun, ar y 30ain o Awst, yn oedran teg o 95 mlwydd oed. Roedd yn fam i bedwar o blant ac yn fam-gu a hen fam-gu gariadus.
Gwasanaethwyd ddydd ei hangladd y 4ydd o Fedi yng nghapel Rhiwbwys gan y Parchg. Stephen Morgan yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg Ifan Mason Davies.
Dywedwyd yn y deyrnged gan y Parchg Stephen Morgan, mai llawenydd oedd byw yn hên heb heneiddio.

Ganwyd Mrs Jones ar y 27ain o Fai 1913 ym Mronnant, a magwyd hi yn heddwch bro Mynydd Bach, pan oedd y gymdogaeth y pryd hynny yn addoli Duw, a chadw'n driw i'r traddodiadau a pharchu popeth da.

Symudodd yn 5 oed i Tynwern, Llangwyrfon, ble roedd yr un patrwm yn bodoli. Yn 14 mlwydd oed, daeth adref i weithio ar y fferm, oherwydd nid oedd yna ryw gyfleoedd mawr y pryd hynny. Y canolbwynt oedd Capel Rhiwbwys, a'r Ysgol Sul ym Mryn Wyre.

Nid oedd yn rhwydd i ddwyn i fyny pedwar o blant, go llwm oedd pethau, ond brwydrodd y wraig hon yn galed.

Yng nghynnwys y deyrnged adroddwyd y dywediad "Mae buddugoliaeth yn eiddo i'r sawl sy'n dal ati"

Bu Mrs Jones yn wraig Tŷ capel ym Mhen-llwyn am bymtheg o flynyddoedd, ac roedd yna ddisgwyliadau o fod yn ofalwraig y capel a'r ysgoldy ac ati, y pryd hynny. Bu yno yng nghyfnod y Parchg Gruffudd Jones, a dywedodd yntau ei bod yn wraig ofalus dros ben.

Symudodd ymhen amser i Drefechan, Aberystwyth, ac ymaelodi yn y Tabernacl, nes caeodd y capel. Wrth gwrs yn anffodus: mae'r capel urddasol hwnnw wedi ei losgi i'r llawr, erbyn heddiw.

Wedi hyn, nôl at ei gwreiddiau y daeth Mrs Jones, i gapel Rhiwbwys, a fynychodd tan y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd wrth ei bodd yn Hafan y Waun, yn derbyn gofal ac yn falch o gael sgwrs gan hwn a'r llall fyddai yn ymweld â'r Cartref. Dywedwyd y byddai yn cofnodi o ddydd i ddydd pwy a oedd yn dod i'w gweld.

Roedd ganddi wybodaeth mawr am y gorffennol, a chyda'r meddwl clir a oedd ganddi, medrai bontio ddoe a heddiw.

Gwraig a ddaliodd ati ac ymddiddori yn y pethau sy'n cyfrif, dal yn gadarn gyda'i ffydd a'i hargyhoeddiad.

Diolch am ei bywyd. Estynnwn ein cydymdeimlad â Dewi, Mair, Gwilym ac Olwen, a'u teuluoedd, a'r cysylltiadau eraill i gyd.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Martin Davies , Delyth a Iona, Maencrannog, ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb yn ddiweddar, sef Mrs Doreen Evans o Bontgarreg.

## Newid Swydd

Dymuniadau gorau i Mrs Nia Davies, Ceunant, ar ei swydd newydd. Bu Nia yn gweithio yn Swyddfa y Dreth Incwm am dros ddeg ar hugain o flynyddoedd, ond y sôn yw fod y swyddfa hon yn Aberystwyth yn cau yn y dyfodol. Mae Nia wedi bod yn ffodus i gael swydd arall yn adeilad y Cynnulliad, adran Ffermio. Pob lwc iddi yn y gwaith.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn

Thema y tymor diwethaf oedd "yn yr ardd" a bu'r plant bach bysedd gwyrdd yn brysur iawn yn plannu moron, mefus pwmpen a blodau haul. Buont yn dysgu llawer am wahanol fathau o bryfed, a chadw lindys i weld y broses o'r lindys yn troi'n pili pala.

Bu y cylch meithrin yn brysur iawn yn codi arian. Cafodd y plant ddiwrnod hwylus iawn yn cymryd rhan mewn taith beicio noddedig, a chael dod a beiciau eu hunain i'r daith.

Llwyddiannus iawn oedd diwrnod Sioe Capel Bangor. Llongyfarchiadau i Blake, Osian a Meilyr am ennill gwobrau am y lluniau gorau o'u hoff anifeiliaid, a da iawn chi blant am gymryd rhan, ac am y lluniau da a wnaethoch. Roedd yna hefyd stondin gwerthu planhigion, mefus a hufen, raffl fawr, peintio wynebau a stondin poteli. Diolch yn fawr i'r noddwyr, a diolch i bawb fu yn cefnogi ar y diwrnod.

Pob lwc i Sian Donnelly — yr arweinyddes, yn ei swydd newydd yn ysgol Penrhyn-coch. Diolch iddi am bopeth yn enwedig ei holl waith caled dros y blynyddoedd diwethaf. Croeso mawr i Gail Nolan o'r Borth, a fydd yn cymryd drosodd swydd Sian fel arweinyddes. Croeso, a phob lwc iddi.

Daeth yr amser i ffarwelio a Georgia Evans, Ffynnon Wen Capel Bangor a Thomos Morgan o Bentre Uchaf, Cwmystwyth, y ddau yn dechrau yn yr ysgol Gynradd — pob lwc i'r ddau yn eu hysgol newydd.

Croeso mawr hefyd i Aeron sydd wedi ymuno â'r cylch meithrin yn ddiweddar.

Thema'r tymor yma fydd "Dathlu". Bydd y plant wrth eu boddau yn cyfarwyddo a chymryd rhan mewn nifer o wahanol ddathliadau fydd o nawr, tan diwedd y flwyddyn.

Mae'r cylch wedi cael "make over"yn ddiweddar, diolch i'r staff a'r rhieni, am eu help. Mae yn lliwgar iawn efo darluniau o gymeriadau ar y wal gan gynnwys Sam Tân a Sali-Mali.

Mae yna groeso mawr i unryw blentyn rhwng dwy a phedair oed i ymuno â'r cylch meithrin; i fwynhau cwmni plant eraill a chael dysgu drwy chwarae. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Bethan James —y cadeirydd ar 01970 890283 neu Gail Nolan- yr arweinyddes ar 01970 871390.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar fore Sadwrn, 7fed Mehefin daeth yr aelodau ynghyd o flaen neuadd y pentref. Dringwyd i'r bws ond nid oedd syniad gennym (ar wahân i ddwy neu dair) ble byddai pen draw y daith. Rhaid oedd dewis llenwad y frechdan ar gyfer cinio cyn i ni gychwyn ar ein taith. Doedd neb yn fodlon datgelu ble y byddem yn mwynhau'r brechdanau.

Teithiwyd i gyfeiriad y gogledd a mawr fu'r dyfalu ble byddai pen y daith. Dyma aros o flaen gwesty'r Afr Frenhinol ym Meddgelert lle mwynhawyd brechdan a phaned.

## PARHAD ... CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

Oddi yno cerddwyd i'r pentref a dilyn y llwybr a arweiniai at fedd Gelert y ci ffyddlon o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Doedd dim amser i ymweld â'r siopau diddorol yn y pentref. Rhaid oedd dychwelyd i'r bws a pharhau â'n taith. Aed heibio Rhyd-ddu a Llyn Cwellyn a thybiai pawb y byddem yn cyrraedd Caernarfon. Ond nid felly y bu. Cyrhaeddwyd Rhosgadfan a dyma aros o flaen Canolfan Treftadaeth Cae'r Gors a agorwyd ym mis Mai llynedd ac a fu'n gartref i Kate Roberts. Fe'n croesawyd yno'n gynnes gan Megan, Siân a Dewi. Cawsom fraslun o fywyd a gwaith Kate Roberts gan Megan cyn gwylio fideo.

Yna fe'n rhannwyd yn ddau grŵp ac o dan arweiniad Siân a Dewi cawsom gyfle i fynd i'r bwthyn a oedd wedi ei ddodrefnu yn arddull cyfnod Kate Roberts. Bu hyn yn bosibl oherwydd caredigrwydd y cyhoedd yn eu cyfrannu neu'n rhoi eitemau ar fenthyg. Nid oedd yr un o'r eitemau wedi bod yng Nghae'r Gors yn ystod y cyfnod y bu Kate Roberts yn byw yno. Aed o amgylch y bwthyn er nad oedd hi'n bosibl mynd i'r groglofft. Gwelwyd yr arddangosfa oedd yn cynnwys enghreifftiau o offer y chwarelwr a'r tyddynwr.

Gwelwyd y cwt mochyn a oedd bellach yn lân ac yn wag ac edmygwyd yr olygfa hardd wrth edrych draw am sir Fôn. Wedi mwynhau cwpanaid o de cafwyd cyfle i brynu llyfrau o waith Kate Roberts yn ogystal ag eitemau yn gysylltiedig â'r awdur. Llinos Jones a ddiolchodd am y croeso cynnes a gafwyd yn y Ganolfan. Trefnwyd raffl a bu Margaret Dryburgh yn ffodus o ennill y wobr.

Wedi dychwelyd i'r bws, dosbarthwyd rhestr o gwestiynau i'r teithwyr er mwyn sicrhau ein bod wedi gwrando ac arsylwi'n ofalus.

Cafwyd pryd o fwyd blasus ar y ffordd adref yn y Llew Coch yn Ninas Mawddwy. Yno, cyhoeddwyd enillwyr cystadleuaeth y dydd. Eirwen Sedgwick fu'n fuddugol gyda Angharad Jones a Delyth Davies yn rhannu'r ail wobr a daeth Heulwen Lewis yn drydydd.

Wrth iddi ddod i ddiwedd ei chyfnod fel ein llywydd, diolchodd Liz Collison i'r aelodau am eu cefnogaeth, gyda diolch arbennig i Llinos Jones ac Eirwen McAnulty, yr ysgrifennydd a'r trysorydd.

### Mis Medi

Dechreuwyd ar ein tymor newydd ar nos Fawrth, 2il Medi. Croesawyd pawb yno gan Mary Jones, ein llywydd. Hon oedd y noson ar gyfer ymaelodi a dyna a wnaeth pawb yn ystod rhan gyntaf y noson. Ein gŵr gwadd oedd Mr. Geraint Lewis, cyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Diwylliannol y sir. Fe fu'n byw yn y pentref am gyfnod rhai blynyddoedd yn ôl. Teitl ei ddarlith oedd "Enwau Cymraeg a Phethau Eraill." Soniodd wrthym am ei wreiddiau yn Ynys-y-bŵl ac yno y dechreuodd ei ddiddordeb mewn enwau. Diddorol oedd gwrando arno'n sôn am darddiad rhai o'r enwau Cymraeg a ddefnyddid yn ei ardal ac yn wir mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Roedd yn amlwg fod ganddo wir ddiddordeb ac arbenigrwydd yn ei faes. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Beti Daniel. Margaret Dryburgh a enillodd y wobr raffl. Mwynhawyd cwpanaid o de wedi ei baratoi gan Anne James, Llinos Jones ac Eirwen Sedgwick.

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar
01970 820 934 neu
07967 654720

D J Evans
Cyfarwyddwr Angladdau
Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ
J Selwyn Evans
Perchennog
Ffôn: 01970 820249

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

## COLOFN MRS JONES

Mi fyddaf yn meddwl yn aml fod gwaith yn cynyddu yn unol ag amser rhywun i'w gyflawni. Os yw amser yn brin, yna y mae gwaith yn tyfu fel madarch ar ôl glaw. Y mae ambell egwyddor arall yn perthyn i hyn yn ogystal. Nid gwaith hawdd ddaw i'ch cyfarfod, nid rhyw gwestiwn neu orchwyl hawdd y gellir ei wneud mewn byr dro fydd yn eich disgwyl ond homar o job go iawn fyddai yn torri eich calon ar ddyddiau digon o amser heb sôn am ddyddiau pryd y mae gennych fwy o waith nag o anser i'w gyflawni.

Y mae digon o gynghorion buddiol ar sut i ddelio efo gormod o waith. Ffefryn fy mam oedd codi yn gynt a dechrau ar waith yn syth. Gwneud yr anodd yn gyntaf y byddaf i er mwyn ei gael o'r ffordd a thra rwyf yn dal i deimlo yn weddol sionc, yn arbennig os oes gennyf rywbeth sydd yn gofyn trylwyredd neu cryn feddwl uwch ei ben. Ond fy hoff ffordd i gyd yw cael rhywun arall i wneud y gwaith drosof ac nid oes angen bod â chywilydd o ofyn i rywun arall, y mae llyfrau cyfan wedi eu cyhoeddi ar y grefft o 'delegation'! Y mae caniatau i rai iau neu rai mwy dibrofiad wneud y gwaith yn well ffordd o'u dysgu sut i'w gyflawni nag oriau o ddysgu - ac y mae o yn rhoi cyfle i chi bwyso a mesur eu haddasrwydd ar gyfer y swydd tan sylw. Nid yw trosglwyddo gwaith i eraill o reidrwydd yn arwydd o wendid a diogi, ychwaith, oherwydd y mae'n rhaid wrth weinyddu'r holl broses a gofalu fod y gwaith yn cael ei wneud.

Ond yr hyn sy'n od amdanaf yw hyn. Er fy mod yn dda iawn am drosglwyddo gwaith i eraill yn fy ngwaith bob dydd, yr wyf yn wael iawn am ei drosglwyddo yn fy mywyd personol. Er fod blynyddoedd bellach o brofiad wedi'm dysgu nad gwir y gair, yr wyf yn dal i feddwl mai dim ond y fi fedr lanhau a choginio a smwddio yn ty'cw! A bum yn hir iawn cyn deall paham. Ond, y dydd o'r blaen, wrth i mi ddarllen rhyw gylchgrawn neu'i gilydd, fe wawriodd y gwir arnaf. Mae'n debyg fod merched fy oed i wedi ein mwydo a'r syniad fod yn rhaid i ni nid yn unig weithio llawn amser ond cadw tŷ i safonau caeth ein mamau na weithient yn ogystal fel na allwn eilio gwaith i'n gwŷr a'n cymheiriaid heb deimlo yn fethiant.

A mae'n rhaid i mi ddweud, fe etifeddais safonau digon caeth, er mai rhyw gadw tŷ digon peth'ma a wnâi mam yn aml. Roedd hi'n gogyddes ragorol ac yn wych am weu a gwnio ( a saethu a hela a physgota a thrin car petai'n dod i hynny) ond rhyw heliwr llwch a glanhawr digon difeind oedd hi a hynny oherwydd iddi gael ei magu mewn tŷ a morwyn. Gwaith honno oedd hel llwch a chrynhoi,gwaith mam oedd ei gweinyddu. Ac fe gafodd hyn effaith digon od arnaf fi mewn dwy ffordd. Un peth oedd na chliriodd mam ar ei hôl wrth goginio erioed, nid oedd wedi arfer a gwneud y fath beth, gwaith y forwyn oedd a gwaith fy nhad a mi mewn cyfnod diforwyn. A'r ail effaith yw mai fy nysgu i weinyddu a wnaeth mam hefyd, fy nysgu pryd y gwnâi staff bethau er mai fi bellach yw'r staff a fod yn rhaid imi wneud drosof fy hun.

Agwedd arall a etifeddais gan mam yw'r gred nad yw llyfrau yn llanast. Na'n wir eu bod yn hel llwch ond anwybyddai mam hynny os nad oedd yn disgwyl pobl ddiarth.Wedyn, gan mai'r gegin oedd ei stydi, âi ati i dwtio a glanhau. Fe wyddem ni os oedd pobl ddiarth ar y ffordd ar stad y gegin! A'r ffordd i gythruddo mam oedd gofyn iddi "Oes'na bobl ddiarth yn dod?" "Go damia chi," fyddai'r ateb "'ydech chi'n meddwl mai dim ond pan genni fisityrs ydw i'n llnau?"' Nid dyna'r amser i ddweud "Wel ie, fwy neu lai..." Nac i ychwanegu mai dad neu fi wnâi'r rhan fwyaf o ddigon o'r glanhau dydd i ddydd.

Mae'n rhaid cofio dau beth arall am waith. Un yw fod yn rhaid inni wrtho a'r llall yw fod gweithio yn galed sy'n ei gwneud hi'n bosibl inni fwynhau ein hamdden. Ac a minnau ar gychwyn fy ngwyliau blynyddol ,mi rydw i am lynu at y syniad hwn!

# MADOG

**Suliau Madog**
**Hydref**

2.00
5 Richard Ll. Jones
12 M.J. Morris
19 Bugail
26 William T.E. Owen

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Tracy Smith, Y Bwthyn, a raddiodd ym Mhrifysgol Aberystwyth fis Mehefin.

**Barbiciw**

Ar 20 o Fehefin cynhaliwyd barbiciw yn Lluest Fach a gwledd wedi ei pharatoi gan Alwen. Roedd yn noson ddifyr a'r tywydd yn fendigedig. Pleser oedd croesawu llawer o ffrindiau. Cafwyd ychydig eiriau pwrpasol gan y Parchg Derick Adams am gyfeillgarwch y Cristion a Christ. Dymunwn wellhad buan i Alwen sydd ddim yn hwylus ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â'r Athro Patrick Simms-Williams, Gwarcwm ar golli brawd yng nghyfraith ac â Dylan a Nia Jones, Maes-yr-Onnen, ar golli mam Nia — Mrs Lilian Howells, gynt o Bonterwyd.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau — Trystan Davies, Rhys Evans, Mared Hughes, Rheinallt Jones a Gruffydd Pugh Jones. Dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfaoedd newydd neu wrth ymadael i'r coleg.

**Sioeau**

Bu Hywel Evans, Elonwy, yn llwyddiannus yn y Sioe Frenhinol Llanelwedd, hefyd, Dei, Lyn a Shirley Evans, Rheinallt a Llŷr Jones yn y sioeau lleol ac Aled Thomas yn y treialon cŵn defaid.

**Diolch**

Dymuna Alwen Griffiths ddiolch i bawb yn yr ardal a gyfrannodd i Gronfa Macmillan.

# LLANGORWEN

**RHAGHYSBYSIAD**

Eglwys Llangorwen
Nos Sadwrn, Rhagfyr 6 am 7.30
Cyngerdd gan Gôr Ar Ôl Tri, Iwan Parry (Bas) a Rhian Lois (Soprano)

ytincer@googlemail.com

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Mis Mehefin
Yng nghyfarfod mis Mehefin o dan gadeiryddiaeth y Cyng. John Evans, cyfetholwyd dwy aelod newydd a oedd wedi dangos diddordeb i fod ar y Cyngor, sef Sian Jones, Caergywydd a Meinir Lowry, Rhoslan, y ddwy yn ferched lleol a'u teuluoedd wedi bod yn yr ardal ers sawl cenhedlaeth. Daeth y Cyng. Sian Jones i'r cyfarfod yn ddiweddarach a derbyniodd groeso ei chyd-gynghorwyr.
Cafwyd y sylwadau canlynol ar faterion yn codi o'r cofnodion. Arwydd yn y Lôn Groes - y clerc wedi gweld proflen er mwyn gwirio'r geiriad. Mi ddylai gael ei osod yn fuan.
Mabwysiadu gweddill ystâd Maesafallen - dim i'w ychwanegu ar hyn o bryd. Goleuadau Stryd Blaenddol a Mynedfa Cartref Tregerddan - peiriannydd wedi bod yn cymryd mesuriadau, cawn glywed oddi wrth y cwmni trydan.
Ffordd Bow Street - Clarach, a'r Cynllun i wella'r ffordd fawr Rhydypennau/Dolau/Maesnewydd - penderfynwyd gwahodd y Cyng. Ray Quant, Aelod Cabinet HPW i drafod y materion hyn yn ein cyfarfod nesaf.
Arosfan Bws ger Afallen Deg a Maes Ceiro - dim ateb, ond penderfynwyd ysgrifennu at y Prif Swyddog Trafnidiaeth yn Aberystwyth ac ar yr un pryd i gefnogi preswylwyr Clarach/Llangorwen i gael gwasanaeth bws ddwywaith y dydd drwy'r flwyddyn. Rhaid gyrru nodyn eto i goffau Adran y Priffyrdd am yr angen am reflectors ar yr rheiliau ger Ysgol Rhydypennau.
Adroddwyd bod rhai o'r Cynghorwyr wedi bod yn torri a chlirio mieri oedd wedi tyfu dros y seti.
Mae'r ceisiadau cynllunio canlynol wedi eu caniatáu: 1. Codi garej ddwbl yn Glyn Rhosyn. 2. Newidiadau ac estyniad yn y Coach House, Cwmcynfelin. 3. Estyniad i'r adeiladau mas i gynnwys ystafell haul yn Fferm Bryncastell. 5. Codi estyniad deulawr yn 63 Bryncastell.
Ceisiadau newydd: Balconi pren ar The Bungalow, South Beach, Clarach - dim gwrthwynebiad.
Clywyd, yn answyddogol, bod BT yn golygu cau un ciosg ffôn yn yr ardal, bydd y Cyngor yn cadw llygad ar y mater. Adroddwyd bod aroglau drwg yn un rhan o Maes Ceiro, a phenderfynwyd cysylltu â Dŵr Cymru. Mae PC Hefin Jones yn golygu sefydlu'r Cynllun Pact yn ardal Bow Street/Llandre/Clarach ar 29 Gorffennaf mewn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Rhydypennau. Bydd angen tri chynghorydd cymuned ar y pwyllgor ac enwyd y Cynghorwyr Heulwen Morgan, Sian Jones a Dewi Jones fel cynrychiolwyr.
Codwyd mater dyfodol hen Ysgol Rhydypennau. Teimlad llawer o'r ardalwyr yw na ddylid ei dymchwel ar unrhyw gyfrif, ond ei ddatblygu o fewn fframwaith ei chymeriad presennol. Penderfynwyd ysgrifennu at y Pwyllgor Addysg, a chopi o'r llythyr i Gyngor Cymuned Genau'r-glyn.
Adroddwyd bod y draen wedi tagu ar Benrhiw a'r dŵr yn llifo i lawr at Nantafallen ar y noson roedd y Cyngor yn cyfarfod. Mae hefyd angen paent ar y seti yn y gymuned a daeth cwyn bod un o faniau Delta yn cael ei gyrru i'r arosfa o flaen Ysgol Rhydypennau bob nos er mwyn hysbysebu ei gwasanaeth. Rhoddir y sylw priodol i'r tri achos.
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb anorfod y Cynghorydd Sir, Paul Hinge. Yr oedd wedi paratoi adroddiad manwl ar nifer o faterion priodol i'r gymuned ac addawodd y byddai yn cwrsio rhain ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Gwnaed defnydd o'r adroddiad wrth ymdrin â rhai o'r materion uchod.

Mis Gorffennaf
Cyfarfu'r cyngor ar 31 Gorffennaf yn Festri Capel Noddfa o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Owain Morgan. Croesawodd y Cyng. Meinir Lowry i'w chyfarfod cyntaf fel cynghorwraig. Roedd y Cyng. Paul Hinge, Cynghorydd Ceredigion, hefyd yn bresennol.
Nid oedd dim pellach i'w adrodd ynglŷn â mabwysiadu ystâd Maesafallen, mwy na bod y broses yn symud ymlaen yn araf. Dywedodd y clerc ei fod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr a fyddai yn gyfrifol am y goleuadau ar stryd Blaenddol a'r fynedfa i Gartref Tregerddan a'u bod yn trafod opsiynau ac fe ddaw'r amcangyfrifon i law yn fuan. Mae'r Cyng. Ray Quant (Ceredigion) yn barod i ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod problemau ffordd Bow Street - Clarach, a'r ffordd fawr Bow Street/Dolau/Maesnewydd. Mae cwmni Arriva yn ceisio gweithio cynllun allan ar gyfer gwasanaeth bws Clarach - Aberystwyth. Bydd adran o'r Cyngor Sir yn cysylltu â pherchennog y clawdd sy'n gwyro dros yr arosfan bws ym Mhen-y-Garn.
Adroddwyd bod y Cynllun Pact wedi ei ffurfio yn yr ardal ddeuddydd ynghynt a bod 22 yn bresennol. Un o'r problemau sy'n codi pen o hyn yw bod perchnogion cŵn yn gadael i'w hanifeiliaid i lygru palmentydd a chaeau chwarae yn yr ardal. Bydd y cyngor yn gwneud cais i wahardd cŵn ar bob cae chwarae yn y gymuned yn ogystal â thraeth Clarach.
Ysgol Dop Rhydypennau. Er nad yw'r hen ysgol yn ardal Tirymynach, iddi hi yr âi'r mwyafrif mawr o blant y gymuned am dros gan mlynedd. Mae'r cyngor yn pwyso ar i'r Cyngor Sir am osod cyfamod rhwystrol ar y façade, fel y gellid cadw cymeriad yr adeilad sydd mewn lle mor amlwg.
Adroddwyd bod y bibell garthffosiaeth sy'n dirwyn drwy dir Rhydhir Uchaf yn gollwng eto ar amserau arbennig, a bod Afon Clarach yn cael ei llygru gan y gorlanw o'r gwaith trin yn Bow Street. Deallir bod Dŵr Cymru wedi bod yn arolygu'r sefyllfa ac nad ydynt am wneud dim ynglŷn â'r sefyllfa, er bod yna gynllun i godi hyd at 20 o dai yng Nghomins-coch ac 20 arall yng Nghae'r Odyn, Bow Street. Petai ffermwyr yn llygru'r afonydd ni fyddent fawr o dro cyn cael eu galw i gyfrif a'u dirwyo.
CYNLLUNIO: Mae cais am godi balconi pren i'r Byngalo ar Draeth y De, Clarach wedi ei ganiatáu, er nad yw'n glir sut mae gosod balconi ar fyngalo! Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i newid defnydd i ddau annedd ym Manaros, Pen-y-garn. Beth bynnag i bob golwg roedd y gwaith eisoes wedi cychwyn. Nid oedd wrthwynebiad i godi annedd newydd yn lle'r un presennol yn Rhydhir Isaf, Bow Steret.
Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Medi.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

Hydref
5 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
12 10.30 Oedfa deuluaidd Gweinidog
19 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa Gweinidog Paned i ddilyn
26 10.30 Oedfa Gweinidog

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lisa a Rhys Davies, Caerdydd ar enedigaeth merch fach — Nel — ar Fehefin 22ain — wyres gyntaf i Non a Colin Evans, Refail Fach.

## Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch

Ar ddydd Sul Medi 7fed, yng ngwasanaeth y bore â chynulleidfa niferus, bedyddiwyd Tomos Ifan a Rachel Annie May, sef efeilliaid Sian ac Alan James, Pen-banc, Penrhyn-coch. Gwasanethwyd gan y Parchedig John Livingstone.

## Urdd y Gwragedd

Dathliad y cymun bendigaid oedd noson agoriadol y tymor newydd ar nos Lun 8 o Fedi, dilynwyd hyn gan swper ysgafn a siawns i ymaelodi a thrafod gweithgareddau'r flwyddyn i ddod. Croesawyd pawb gan y llywydd Edwina Davies gan gofio am y rhai nad oedd yn bresennol trwy afiechyd neu absenoldeb. Mis nesaf fydd noson yng nghwmni Dr Andrew Agnew a thema'r noson fydd 'Bywyd gwyllt dwyrain yr Affrig'.

## Cydymdeimlo

Mae yna amryw o deuluoedd wedi colli anwyliaid yn ystod yr haf. Estynnwn ein cydymdeimlad i bawb gan gynnwys:
Sue Horwood a'r teulu, Glanffrwd; Mair Evans, 24 Glanceulan; Teulu Garej Tymawr; Teulu Cwmfelin; Teulu Jim Meredith, Llwyn Prysg; Teulu Glanaber; Mr a Mrs Jenkins a'r teulu, Glanstewi.

## Diolch

Dymuna Ruth Davies, Ardwyn, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a galwadau ffôn, ac ymholiadau adeg ei anhwylder tra yn Ysbyty Bron-glais.
Diolch hefyd i'r nyrsys, staff, a'r meddygon yn arbennig Arbenigwr y Llygaid, am bob gofal a charedigrwydd a ddangoswyd iddi yn ystod y pum wythnos yn Ward Rhiannon. Diolch o galon.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Frondeg ar farwolaeth Sarah P. R.(Sally) Rowlands, Y Gorlan, Capel Seion, gynt o Frondeg. ar 15 Mehefin yn Ysbyty Tregaron;

â Janice ac Arwyn Morris, Sion a Dylan, Glan Ceulan, ar farwolaeth mam Janice o Beulah, Ceredigion ar Fehefin 21;

â Connie Evans a'r teulu, ar farwolaeth perthynas yng Nghwm Rhondda.

â Mrs Eluned Morgan, 23 Glan Ceulan, ar farwolaeth cefnder iddi hi yn Llanrhystud yn ddiweddar.

ac â Mary Thomas, Llys Myrddin, a'r teulu ar farwolaeth tad Mary ddechrau Awst.

## Diolch

Dymuna Arwyn a Janice Morris, 3 Glanceulan, ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a wnaethant dderbyn ar ôl colli mam Janice.

## Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Medi, 8 a 22 Hydref. Cysylltwch â Egryn Evans — 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Marwolaeth

Bu farw Thomas Bernard Jones, Llys-y-brenin, Aberystwyth ar Orffennaf 14 yn Ysbyty Bron-glais; gŵr y ddiweddar Mair (Llwyngronw gynt). Estynnwn ein cydymdeimlad â'r merched Glynis a Celyn a'u teuluoedd. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ac yn dilyn fe'i claddwyd ym mynwent Horeb.

## Priodasau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Tudor Rowlands, Frondeg gynt, ar ei briodas â Kelly Morris yn Login, Sir Gaerfyrddin dydd Sadwrn 29 Mehefin.
Hefyd i Dan a Leanne Field, 27 Dolhelyg, a briodwyd ar Fai 24ain yn Eglwys St Maries, Standish. Mae Dan ar staff Adran Gyfrifiaduron y Llyfrgell Genedlaethol.

## Cwrdd gweddi

Bydd Horeb yn cynnal cwrdd gweddi misol — cynhelir y cyntaf nos Fawrth Hydref 28 am 7.30. Croeso cynnes i bawb.



**Mrs Morfudd Morris gyda chwpan a soser a gyflwynwyd iddi pan ymwelodd cynulleidfaoedd Bethel, Aberystwyth a Horeb â Eglwys Llwyndafydd ger Ceinewydd ym Mehefin. Bu Mrs Morris yn byw yno pan oedd ei gŵr, y diweddar Barchg Arwyn Morris, yn weinidog yno rhwng 1949 a 1952.**

## Esgob newydd Tyddewi

Daeth Wyn Evans i fyw i Benrhyn-coch pan oedd tua blwydd oed ym Mawrth 1948 gyda'i rieni, Y Parchg D. Eifion a Mrs Iris Evans pan ddaeth ei dad yn reithor Eglwys Sant Ioan. Buont fel teulu yn rhan o'r ardal hyd 1957 pan benodwyd ei dad yn reithor Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth.

Mae nifer o'r ardalwyr yn ei gofio yn dda — rhai fel Llinos Evans, Dolwerdd, Dôl-y-bont a rannai ddesg gydag ef yn yr ysgol; cyd-ddisgyblion eraill oedd Elsie Morgan a Jack Jones. Athrawon yr ysgol ar y pryd oedd y prifathro Rhys Jones a Mrs Gwladys Edwards — sydd erbyn hyn yn 98 oed ac yn byw yn Aberystwyth. Maent i gyd yn cofio mab y ficer fel un direidus a hoffus; yn ôl ei gyn-athrawes roedd yn un a weithiai yn gyflym a chanddo gof da am bopeth a meddwl chwim.. Byddai Mrs Edwards yn falch o gael ail gyfarfod ag ef os daw i Benrhyn-coch neu Aberystwyth yn rhinwedd ei swydd.

Cofia Agnes Morgan achlysur pan oedd criw o blant yn chwarae y tu allan i dy yn y pentref a'r perchennog yn cael gair â hwy. Fe atebodd Wyn Evans — Wyddoch



## Priodas

Llongyfarchiadau i Lowri (Jones, Rhydyrysgaw, Penrhyn-coch) ac Owain Schiavone ar eu priodas yng nghapel y Garn ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf. Pob dymuniad da i chi yn y dyfodol.

chi pwy ydw i? Fi yw mab y ficer ac un diwrnod fe fyddaf yn Esgob. Daeth ei broffwydoliaeth yn wir!
Dymuniadau gorau iddo yn y swydd oddi wth bawb ym Mhenrhyn-coch.

### Graddau

Llongyfarchiadau i Cemlyn Davies, Glan Ceulan ar gael gradd dosbarth cyntaf yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau iddo ar y cwrs newyddiaduraeth.

Llongyfarchiadau i Seiriol Dafydd, Rhandir ar gael gradd dosbarth cyntaf yn Abertawe. Pob dymuniad da ar y cwrs ymchwil.

### Diolch

Hoffai Ellen Sheppard, Dolhelyg, ddiolch i bawb am bob cymwyna yn dilyn damwain tra ar wyliau yn yr Alban ddechrau'r haf.

### Gwellhad buan

Dymunir llwyr wellhad i Mrs Eluned Morgan, 23 Glan Ceulan, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Yeovil, Gwlad yr Haf, ddechrau Awst. Brysiwch wella Eluned.

### Gwasanaeth diolchgarwc

Yng ngwasanaeth diolchgarwch Horeb eleni — ar Hydref 1af am 7.30 — bydd Dr Dylan John yn sôn am ei ymweliad â Lesotho. Daw Dr John o Grymych a graddiodd eleni yn feddyg ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae newydd ddechrau gweithio yn Ysbyty Llwyn Helyg, Hwlffordd.

### Pwyllgor Apêl Urdd 2010

Cafwyd barbeciw a disgo llwyddiannus nos Wener 5 Medi yn y Clwb Pêl-droed. Yno tynnwyd y raffl a chyhoeddwyd mai'r canlynol oedd yr enillwyr:

1 £100 (T.M. Price Plant Hire) Olwen Morris, Aberystwyth
2 £100 (Mid Wales Travel) Meleri Jones, 2 Dôl Helyg, Penrhyn-coch
3 £50 (D J Evans, Trefnwyr Angladdau) H.J. Owen, Cemaes, Ynys Môn
4 £50 (Carl Evans, Saer Coed) Jane Jenkins, Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch
5 MOT (Garej Cwrt) Ritchie Jenkins, Cwm Bwa
6 Chwaraewr DVD (Cooke & Davies Trydanwyr) Rhian Dobson, Cae Mawr
7 Llun golygfa o Aberystwyth — (Jeremy Moore) Ceris Gruffudd, Maesyrefail

Dewisodd y ddau enillodd yr MOT a'r llun golygfa eu rhoi ar ocsiwn a chodwyd arian pellach i'r gronfa.
Roedd elw y noson rhwng y raffl a'r digwyddiadau yn £1,202

Trefnir digwyddiad yn y Neuadd gan Bwyllgor y Neuadd yn fuan; bydd gan yr Ysgol ocsiwn dydd Gwener 24 Hydref a bydd y Pwyllgor Apêl yn trefnu i ganu carolau ar ddwy noson yn Rhagfyr nosweithiau Llun a Mercher 15 a 17 Rhagfyr.


Anne a Keith Morris yng ngofal y barbeciw


### Swydd gyntaf

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian Dobson, Cae Mawr, ar ei swydd fel athrawes yn Ysgol y Dderi, Llangybi, Ceredigion.

# SIOE PENRHYN-COCH 2008

Cynhaliwyd Sioe Penrhyn-coch ar yr unfed ar bymtheg o Awst 2008 yn Neuadd y Penrhyn, er fod y tywydd yn fregus ers tro bellach ni wnaeth hynny amharu ar y cystadlu gan i'r cystadleuwyr ddod yn llwythog a'u cynnyrch i'r Neuadd rhwng 8.30 a 11.30, a'r drysau wedi cau a'r beirniad i gyd wrthi yn beirniadu, dyma gyfle i mi fynd o amgylch, ac yn rhyfeddu o weld cymaint wedi cystadlu a'r safon eleni eto yn arbennig yn y Penrhyn.
Rhaid cyfaddef fod y cystadlu i lawr ychydig eleni ar ambell i gystadleuaeth i gymharu â'r llynedd, ond anodd ydi cael llawnder a safon.
Ein llywyddion eleni oedd Mr & Mrs Meirion Davies a'r Teulu, Llaingwyddil, Cefn-llwyd, yn anffodus methodd Mr Davies a Trystan fod yn bresennol, ond fe gawsom gwmmni Mrs Davies a Gwenllian y ferch, a braf oedd eu croesawu a'u cyflwyno i'r gynulleidfa. Mae Mrs Davies (Iona) yn ferch i'r diweddar Berry a Bronwen Evans, Gwynfa, Cefn-llwyd, (roedd Bronwen yn ferch y Felin Penrhyn-coch), felly mae ei gwreiddiau yn ddwfn iawn yn y plwyf, ac roedd yn ddiolchgar iawn o gael y cyfle i lywyddu yn y Sioe eleni. Carem ddiolch yn fawr i'r teulu am dderbyn y gwahoddiad ac am eu presenoldeb ar y dydd, ac am eu rhodd anrhydeddus i gronfa'r Sioe.
Cawsant y fraint o gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr ac hefyd dynnu'r raffl ar ddiwedd y prynhawn.
Diolch i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth unwaith eto, maent yn driw iawn ers llawer blwyddyn bellach. Mae ein diolch i'r beirniad hefyd yn rhoi o'i hamser i ddod atom, rhai ohonynt yn weddol agos ac eraill wedi teithio mor bell â Chaernarfon. Diolch hefyd i Aelodau'r Pwyllgor ac eraill am fynd allan i gasglu o ddrws i ddrws, eraill wedi bod yn garedig i baratoi'r Neuadd erbyn y Sioe..
Diolch i nifer o bobl am gyfrannu'r Cwpanau a'r gwobrau i Raffl y dydd.
Diolch i'r ddwy chwaer, sef Mrs Delyth Ralphs a Mrs Edwina Davies, am baratoi prydau o fwyd blasus i'r Llywyddion, Beirniaid, a'r Stiwardiaid. Yn olaf ond nid y lleiaf ein hysgrifennydd Ann James am ei gwaith diflino , yn cael ei chynorthwyo gan Mair Jenkins Is —Ysgrifennydd a mawr yw ein diolch i'r Trysorydd, Glenwen Morgans. Diolch hefyd i'r Is-lywyddion am eu cyfraniadau i'r gronfa, maent yn rhy niferus i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond fe fydd yna restr llawn yn rhaglen Sioe 2009

Diolch yn fawr
D R Morgan (Cadeirydd y Pwyllgor)



Mair Evans, Glan Ceulan, enillydd Cwpan R.A.O.B Lodj Gogerddan am yr arddangosiad gorau yn y Sioe — wedi ei gyfyngu i drigolion Plwyf Trefeurig; barnwyd gan Lywyddion y Sioe Iona a Gwen Davies.

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

# BOW STREET

### Suliau Hydref

Y Garn
10 a 5
www.capelygarn.org
5 Richard Ll. Jones Bugail
12 M.J. Morris
19 Bugail
26 William T.E. Owen

Nodfa
5 2.00 Gweinidog
12 Diolchgarwch Undebol yr Ofalaeth ym Methel, Tal-y-bont am 10.00
19 10.00 Parch. Tudor Davies
26 2.00 Gweinidog. Cymundeb

### Hunangofiant ar y we

Efallai y bydd rhai darllenwyr yn cofio y diweddar Mr Gwilym Rhys Williams, tad Bethan Hartnup. Bu'n byw ym Maes Ceiro ar ddechrau'r nawdegau ac ymddangosodd teyrnged iddo yn *Y Tincer.*
155 ( Ionawr 1993) t. 3.
Roedd ei fam yn chwaer i fam-gu Richard Huws, Bont-goch ( mam ei fam). Mae Ruth Hartnup — ei wyres - sydd bellach yn byw yng Nghanada wedi rhoi y cofiannau a ysgrifennodd ei thad-cu ar gyfer ei wyrion ar y We, fel rhan o'i blog hi. www.spindriftpages.net/blog/ruth/memoirs-of-gwilym-williams
Ceir penodau ar ei ieuenctid yn ne Cymru , ei flynyddoedd yn y coleg yn Aberystwyth, ei yrfa fel athro, a'i hanes yn ystod y rhyfel a'i ymddeoliad.

### Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Susan Nia Edwards, merch Mr a Mrs Ken a Lynda Edwards, Elerch, Maes-y-Garn, Bow Street a Simon David Herron (Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig), mab Mr a Mrs Donald a Linda Herron, Llanafan ar eu priodas yn eglwys Yr Holl Saint, Llangorwen, Clarach ar y 26 o Orffennaf. Treuliasant eu mis mêl yn Awstralia. Dymunwn i chi eich dau hapusrwydd a dymuniadau gorau am briodas dda.

Ar y 7fed o Fehefin yn Eglwys Llangorwen fe briodwyd Joanne Simkins, merch Stephen a Shan Simkins (gynt o Bryncastell) a Gruff Jones, mab Bethan Bryn a Bob Jones, Lodj Nanteos, Rhydyfelin. Maent wedi ymgartrefu ym Maes Afallen.

Priodwyd Richard Evans, Erwlas, a Lynwen Beaufort o Lan-non yn Eglwys Llansantffraid ar Awst 23ain. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

### Pen blwydd

Dathlodd y cyfaill Cecil Phillips, 8 Tregerddan ei ben-blwydd yn 94 oed ar 9 Medi ac wrth ei longyfarch dymunwn iechyd gwell iddo yn dilyn dau gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Ein cofion at Maud ag yntau.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Seiriol Hughes, Maes-y-garn, ar ei radd o Gaergrawnt a dymuniadau gorau yn ei swydd fel ymchwilydd yng Nghaernarfon gyda'r cwmni Rondo ar y rhaglen deledu Sgorio.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Martin Robson-Riley, Llys Hywel a gollodd ei dad ddiwedd mis Mehefin.

### Marwolaethau

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Eunice Davies, Tregerddan a fu farw yn dilyn cystudd blin.
Hefyd bu farw Derek Horwood, Tregerddan a chydymdeimlwn â'i briod Dorothy a'r plant.

Cydymdeimlwn â Hetty Tillsan, 17 Garreg Wen, ar farwolaeth ei nai, Mr Dyfrig Davies, Aberteifi.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rheinallt Lewis, 40 Maes Ceiro ar ei lwyddiant yn ei arholiadau llyfrgellydd yn ddiweddar.



**Y ddwy chwaer — gynt o Fryncastell - Caryl Ebenezer Thomas, Llandaf, Caerdydd ac Anwen Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth a urddwyd i'r Orsedd fore Llun Awst 4 yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.**

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Aled ac Amanda Jones, Caerdydd ar enedigaeth merch fach — Ellie Mai Lloyd Jones ar Orffennaf 31; wyres gyntaf i Gwen Lloyd Jones.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Tomos George, Llys Hedd, ar raddio gyda dosbarth cyntaf mewn Peirianneg ym Mhrifysgol Caerdydd a dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd yng Nghanolbarth Lloegr.

### Bedydd

Bedydd Bore Sul, 20 Gorffennaf, bedyddiwyd Llio Tanat, merch fach Rhodri a Cet Morgan, a chwaer Rhys ac Elain, gan y Gweinidog. Hefyd, estynnwyd croeso cynnes i Rhodri a Cet yn aelodau yn y Garn.

### Eunice Davies 15 Tregerddan

Yn y rhifyn diwethaf ym Mehefin sgrifennais air o ddiolch ar ran Eunice i bawb fu o gymorth iddi yn ei salwch blin a'r tro hwn rwy'n gorfod teyrngedu iddi a hithau wedi 'n gadael ar 19 Gorffennaf yn 75 oed.Ddeufis ynghynt collwyd Ceridwen ei chwaer ym Mhenegoes ac yr ydym yn meddwl am John eu brawd a gollodd ddwy chwaer annwyl mewn cyfnod byr. Rydym yn cydymdeimlo gydag ef, gyda Brian a Hywel a gollodd eu mam, a gyda gweddill y perthnasau, y cymdogion a'r cyfeillion fu'n driw i Eunice heb anghofio teulu Islwyn ei phriod fu farw ym 1996.
Merch i Sarah ac Ellis Jones, Abercegyr, oedd Eunice ac yno y maged hi ar ôl i'r teulu symud i'r pentref o Lanwrin.Y cartre, y capel Wesle ac Ysgol Darowen



**Simon a Susan**



**Gruff a Joanne**



**Bedyddiwyd Tomos Hedd, mab Rhian Heledd ac Adrian, Caerdydd a ŵyr Gaenor a Gareth Jones, Hafle, Bow Street yng Nghapel Noddfa ar 29ain o Fehefin gan y Parchg Richard Lewis.**

fu'r dylanwadau arni ac o gofio am ei chefndir cyfoethog gellid dweud gyda'r Salmydd fod ganddi 'etifeddiaeth deg-rhagorol 'yn ôl y Beibl Cymraeg Newydd. Ar ôl gadael ysgol bu Eunice yn gweithio mewn caffi a siop esgidiau ym Machynlleth cyn mynd i wasanaethu yng Nghartref Dôl-llys, Llanidloes, cyn symud i weini yng Nghartref y Deva yn Aberystwyth. Canmolwyd ei gwaith yn y cartrefi yma gan y penaethiaid a'r preswylwyr.Yn fuan wedi dod i'r Deva cyfarfu ag Islwyn fy nghefnder oedd yn was ar y pryd gyda Llew a Jane Bebb, Blaendyffryn, Goginan.

Priodwyd ar 26 Medi 1959 yn Abercegyr a chartrefwyd yn Ael-y bryn ar Benrhiw yn Bow-Street cyn symud ym 1968 i 15 Tregerddan. Ymaelodi yn y Garn ym 1960 ac yno y bedyddiwyd Brian ym 1963 a Hywel ym 1968 gan y diweddar Barchedig DR.Pritchard.Ym 1974 cafodd Islwyn ei lorio gan salwch difrifol a bu'n gaeth i'w gadair olwyn am ddwy flynedd ar hugain. Edmygodd bawb ohonom ei ddewrder yn ogystal a mawr ofal Eunice a fyddai'n ymdrechu i'w olwyno hyd y pentref a'r ardal. Bu'r teulu o'r ddwy ochr o gymorth mawr a chymdogion a ffrindiau ac nid anghofiwyd am y weddw a'r plant ar ôl colli Islwyn yn Ionawr 1996.

Pwysodd Eunice ar y ffydd y daeth i wybod amdani yng nghapel Abercegyr ac yn y Garn a Chartref Tregerddan lle byddai'n selog yn yr oedfa brynawn Sul. Roedd yn falch fod Gwenda a minnau wedi dychwelyd i'm hen gartref a ninnau'n falch hefyd ein bod yn gallu seiadu gyda hi yn ystod y chwe blynedd diwethaf, ac yn enwedig yn ystod misoedd anodd ei chystudd.

Brynhawn Gwener 25 Gorffennaf daethom ynghyd i'r Garn i gynhebrwng Eunice ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Wyn Rhys Morris a fu'n ymweld yn gyson â hi yn ei salwch, a minnau'n ei gynorthwyo yno ac ym mynwent Tal-y-bont, lle gosodwyd ei gweddillion ym medd Islwyn ac Evan a Maggie ei rieni. Kathleen Lewis oedd wrth yr organ. Diolchwn am fywyd a llafur Eunice a llewyrched y goleuni tragwyddol arni.

**W.J.Edwards**

## Llwyddiannau

Ym mis Gorffennaf graddiodd Jennifer Hughes, Bodhywel, wedi cyfnod yn astudio Celfyddydau Cain yng Ngholeg Celf Gorllewin Cymru. Mae a'i bryd ar ddatblygu gyrfa fel arlunydd cain ac ar hyn o bryd mae stiwdio ganddi yn Aberystwyth drwy gynllun arbennig Cwmni Arad Goch sy'n rhoi cyfle i artistiaid.

Y llynedd graddiodd ei brawd Gethin o Ysgol Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Cymru Caerdydd. Bellach mae'n gweithio ym Mhen-coed ger Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chwmni Sports Media Services sy'n cynhyrchu rhaglenni chwaraeon ar gyfer S4C megis "Pencampau", "Rygbi'r Byd" a "Pele 1 - 0". Yn dilyn y graddio bu'n ymgymryd â naid bynji gan godi nawdd o bron £600 a gyflwynwyd i elusen MENCAP. Diolchir i gyfeillion am ei noddi. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Dai, Auriel a Ruth Evans, Trewylan, ar farwolaeth wncwl i Dai yn Cnwch Coch yn ddiweddar.

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Daeth Gweinidog Iechyd Llywodraeth y Cynulliad, Edwina Hart AC, yn arbennig i Aberystwyth ar ddechrau mis Mehefin er mwyn datgan ei bod wedi cymeradwyo cynlluniau i fuddsoddi £31 miliwn yn Ysbyty Bronglais. Ddwy flynedd yn ôl roedd trigolion Ceredigion yn gorymdeithio i wrthwynebu cynlluniau i symud gwasanaethau mamolaeth o Aberystwyth i Gaerfyrddin, ac mae'r buddsoddiad yma yn dro pedol arwyddocaol. Bydd yr Ymddiriedolaeth Iechyd nawr yn parhau gyda'r cynlluniau i adeiladu estyniad newydd i'r ysbyty a fydd yn cynnwys adran ddamweiniau newydd ynghyd â theatrau ychwanegol. Bydd wardiau eraill presennol — gan gynnwys y ward mamolaeth — hefyd yn cael eu hailwampio.

Ychydig cyn ymweliad y Gweinidog ag Aberystwyth, fe gyhoeddwyd yr adroddiad a gomisiynwyd ganddi oddi wrth Dr Alan Axford ar ysbytai cymunedol Ceredigion. Rwy'n falch iawn bod yr adroddiad hwn wedi cadarnhau bod yr angen yn parhau am ysbytai gyda gwelyau yn Aberteifi a Thregaron, ynghyd â chanolfan iechyd yn Aberaeron. O ganlyniad, rwy'n gobeithio y bydd pawb yn parhau i gydweithio i ddod â'r cynlluniau cyffrous i ffrwyth — yn enwedig yn Aberteifi ble mae anghytuno dros leoliad i'r datblygiad newydd yn parhau i oedi'r broses.

Yng nghanol yr holl newydd da am y gwasanaeth iechyd, fe gefais siom fawr wrth glywed bod Swyddfa'r Post Cyf wedi penderfynu parhau â'u cynlluniau i dorri'r nifer o ganghennau sydd ganddynt yng Ngheredigion. Mae yna deimlad cryf iawn yn erbyn y cynigion yma ymysg trigolion Ceredigion ac rwy'n siŵr y bydd nifer ohonoch yn rhannu fy siom â'r penderfyniad hwn. Fodd bynnag, mae dyfodol pedair Swyddfa Bost yn parhau yn y fantol — Llanilar, Llangeitho, Llanddewi Brefi a Phontsian — wrth i Swyddfa'r Post Cyf a Golwg ar Bost drafod y cynlluniau ar gyfer yr ardaloedd hyn ymhellach. Byddaf nawr yn cynnal trafodaethau brys gyda'r ddau sefydliad yma ar y mater hwn.

Yn olaf, roedd hi'n braf iawn mynychu Rali'r Ffermwyr Ifanc ym Mhrengwyn a Sioe Aberystwyth yn ddiweddar. Gyda'r haf bellach wedi cyrraedd, mae tymor y sioeau eisoes wedi cychwyn ac edrychaf ymlaen at fynychu amryw o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir — gobeithio'n wir y gwelaf rai ohonoch yno!

Elin Jones AC

## DOLAU



**Priodwyd Anna Marie Richards, merch Ken a Susan Richards, Bow Street ac Elfyn Lloyd Jones, mab Elizabeth Jones Maes Ceiro a'r diweddar Edward Lloyd Jones ar Awst 2il yn Eglwys Mihangel Sant, Llandre. Y morwynion oedd Holly Richards (chwaer y briodferch) a Meganne John. Y gwas oedd Carwyn Lloyd Jones (brawd y priodfab), a'r ystlyswyr oedd Danny Richards (brawd y briodferch), Rhys ap Tegwyn, Jordan Lloyd Jones a Benjamin Lloyd Jones (Neiaint y priodfa). Cynhaliwyd y brecwast yn y Falcondale Llambed. Treuliwyd y mis mêl yn Ynysoedd y Seychelles.**

# Adolygiad

***Rhiannon Ifans: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion. £6.99. 96t.***

Y mae pwyslais Cymdeithas Lyfrau Ceredigion bob amser ar gynhyrchu cyfrolau sydd nid yn unig yn newydd a ffres o ran cynnwys, ond sydd hefyd yn plesio'r llygad ac yn rhoi boddhad i'r sawl sy'n eu cyffwrdd a'u bodio. Enghraifft cystal â'r un yw'r gyfrol fechan dan sylw, sef y drydedd mewn cyfres hynod ddeniadol o fonograffau ar amrywiol destunau. Eisoes cafwyd Pwy oedd Rhys Gethin gan Cledwyn Fychan, sef ymchwil am gadfridog Owain Glyndŵr, a Gohebydd yng Ngheredigion gan Dylan Iorwerth, sef hanes John Griffith (Y Gohebydd) ac Etholiad 1868 yng Ngheredigion, ond yn y gyfrol newydd hon dyma fentro y tu hwnt i ffiniau Cymru ac i Awstralia bell.

Y mae'n ffaith dra hysbys wrth gwrs nad oes ond ychydig iawn, iawn o bynciau na chyffyrddwyd â hwy gan y llu o faledwyr a fu'n trampio ledled Cymru yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn canu a gwerthu eu cerddi. Yn y cynhyrchion hyn — digon anghelfydd yn aml — y câi'r werin bobl olwg, nid yn unig ar hynt a helynt y byd a oedd o'u cwmpas yng Nghymru, ond ambell gip hefyd ar y byd mawr dros y moroedd — daeargryn yn Lisbon, rhyfel cartref yn America, gwrthryfel yn yr India, gwarchae Sebastopol, ac yn y blaen. Ac fel y dengys Dr Rhiannon Ifans yn y gyfrol hon, nid aeth Awstralia'n angof chwaith. Y mae'r awdur i'w llongyfarch ar daro ar ddull dychmygus iawn o gyflwyno nifer o faledi'r ganrif fawr yn hanes y faled Gymraeg, sef y bedwaredd ar bymtheg. Wrth drafod naw ohonynt, a phob un yn dwyn rhyw gysylltiad ag Awstralia, mae'n llwyddo i wneud dau beth yn bennaf, sef tanlinellu pwysigrwydd y caneuon gwerinol hyn o ran y wybodaeth y gellir ei ddenu ohonynt o'u darllen yn ofalus, gan gynnwys darllen rhwng y llinellau weithiau, a hefyd sut y gallant ein tywys i feysydd tra annisgwyl weithiau. Ymfudo i Awstralia, gan amlaf i chwilio am aur a chyfoeth sydyn, yw'r thema ganolog yma, ond yn sgil hynny cawn wybod nad cwbl anarferol ydoedd i ferched ieuanc yn eu hugeiniau fentro ar yr antur enbyd hon i bellafoedd byd, a olygai fisoedd ar y môr mewn llongau digon bregus. Yr oedd baledi am famau yn hiraethu am eu meibion a aeth ar yr un daith, yn boblogaidd dros ben, ond yn hytrach na bodloni ar gofnodi hynny'n foel yn unig, ceir yma yn eu cysgod ddarlun o psyche'r fam Gymreig, a dull y mab Cymreig o'i thrafod. Down wyneb yn wyneb hefyd â nifer o gymeriadau adnabyddus megis Twm o'r Nant, a rhai llai adnabyddus megis Syr Peter Mytton, Isaac Thomas, Aberdâr ('Yr Hen Undertaker'), a'r adyn pennaf hwnnw, Frederick Bailey Deeming a laddodd ei wraig a'i blant a'u claddu dan lawr y tŷ. Tywysir ni i fyd llofruddiaeth a chrogi, i fyd llongddrylliadau a hyd yn oed ganibaliaeth, heb golli golwg unwaith ar y llinyn Awstralaidd sy'n cydio'r cyfan wrth ei gilydd. Ceir yn y gyfrol luniau hefyd, wedi eu hatgynhyrchu'n dda, o longau ac o daflenni baledi y cyfeirir atynt yn y testun.

Gan gofio mai awdur y llyfr tra defnyddiol, onid anhepgor, hwnnw, *Y Golygiadur* (eto o stabl Cymdeithas Lyfrau Ceredigion) yw awdur y monograff yma hefyd, prin bod angen nodi iddo gael ei gyflwyno'n lân a diddorol. Anogaf ddarllenwyr *y Tincer* i'w brynu ar y cyfle cyntaf, a'i ddarllen. Ni chewch eich siomi.

**Tegwyn Jones**

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 29 Gorffennaf, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r cadeirydd, Cyng. Richard Owen, yn y gadair. Roedd naw o'r cynghorwyr eraill yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sirol. Adroddodd y Clerc fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Scottish Power i drafod y posibilrwydd o gael goleuadau ochr ffordd ychwanegol mewn rhannau o Benrhyn-coch a Phenrhiwnewydd.

Penderfynodd y Cyngor ofyn am brisiau ar gyfer y cysylltu a'r gosod cyn symud ymhellach. Roedd mater y cyfeiriad post 'Cwmsymlog' wedi'i godi, gan fod y cyfeiriad yn cynnwys ardal Pen-bont Rhydybeddau, ac yn achos dryswch yn aml; penderfynwyd holi barn trigolion Pen-bont i weld a fyddent yn cefnogi newid y cyfeiriad post.

Adroddodd y Cadeirydd am gyfarfod o bwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru y bu ynddo, ynghyd â chyfarfod am y Cynllun Datblygu Lleol yn Aberaeron. Roedd hefyd wedi bod ym more coffi blynyddol Ysgol Feithrin Trefeurig. Rhoddodd y Cyng. Kari Walker adroddiad am ei hymweliad â garddwest ym Mhlas Buckingham.

Trafodwyd gwerthu Tŷ'r Ysgol yn Nhrefeurig, a phenderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir yn pwyso arnynt i ganiatáu'r lês ar adeiladau'r ysgol i'r Grŵp Datblygu cyn arwyddo i werthu Tŷ'r Ysgol. Roedd BT yn bwriadu gwneud i ffwrdd â phum ciosg teleffon yn ardal y Cyngor. Penderfynwyd gwrthwynebu hyn gan fod y blychau ffôn hyn yn gallu bod yn bwysig mewn argyfwng os nad oes signal ffôn symudol i'w gael.

Adroddodd y Clerc fod yr archwiliad mewnol o gyfrifon y Cyngor am 2007/08 wedi'i orffen, a rhoddwyd copi i bob aelod. Roedd y dogfennau perthnasol yn awr wedi'u hanfon i'r archwiliwr allanol.

Roedd y Cyngor wedi cael gwybod am y penderfyniadau cynllunio canlynol lle'r oedd caniatâd wedi'i roi: ail ran Y Ddôl fach, Penrhyn, 10 tŷ; plot ger Brynawel, Cefn-llwyd, tŷ; tir ger Arosfa, Salem, tŷ; Plas y Coed, Cwmerfyn, estyniad; 1 Glanseilo, Penrhyn, estyniad; 3 Pen-y-berth, Penrhyn, newidiadau; Rhoserchan, Penrhyn, paneli haul. Trafododd y Cyngor ddau gais: codi tŷ ar dir ger Y Gelli, Cefn-llwyd — dim gwrthwynebiad; codi tŷ ar dir ger Ysgol Trefeurig — penderfynwyd gwrthwynebu'r cais gan fod y tir y tu allan i ardal y pentref presennol, ac o ran diogelwch byddai'n anodd iawn gweld y fynedfa o un ochr.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn Ysgol Trefeurig, nos Fawrth, 16 Medi.



# YSGOL PEN-LLWYN

### Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau ysgol Pen-llwyn yng nghae Eon yng Nghwmrheidol ar brynhawn Dydd Mawrth Gorffennaf 1af.
Ar ôl cystadlu brwd, Melindwr ddaeth yn gyntaf, Rheidol yn ail, ac Ystwyth yn drydydd.
Amy Dryburgh oedd y Victrix Ludurum a Oliver Hershel y Vivtor Ludurum.

Cyflwynwyd y tariannau i'r buddugwyr gan Mr Elfed Lewis.

Rhedeg Ras 60m/80m/100m
Merched Dosb 1 - Nuala Ellis Jones
Bechgyn Dosb 1 - Iestyn Watson

Merched Bl 3 a 4 - Amy Dryburgh
Bechgyn Bl 3 a 4 - Gethin a Jo

Merched Bl 5 a 6 - Roisin Robinson
Bechgyn Bl 5 - Gerallt Williams
Bechgyn Bl 6 - Shaun Dryburgh

Ras Sach
Merched Dosb 1 - Nuala Ellis Jones
Bechgyn Dosb 1 - Iestyn Watson

Merched Bl 3 a 4 - Amy Dryburgh
Bechgyn Bl 3 a 4 - Tomos Evans

Merched Bl 5 a 6 - Annie Lewis
Bechgyn Bl 5 - Gerallt Williams
Bechgyn Bl 6 - Shaun Dryburgh

Ras Wy a Llwy
Merched Dosb 1 - Nuala Ellis Jones
Bechgyn Dosb 1 - Iestyn Watson

Merched Bl 3 a 4 - Amy Dryburgh
Bechgyn Bl 3 a 4 - Jo Jones

Merched Bl 5 a 6 - Roisin Robinson
Bechgyn Bl 5 - Gerallt Williams
Bechgyn Bl 6 - Tomos Watson

Taflu Pel
Merched Dosb1 - Nuala Ellis Jones
Bechgyn Dosb 1 - Iestyn Watson
Merched Dosb 2 - Roison Robinson
Merched 3,4,5,6 - Roison Robinson
Bechgyn Bl 3 a 4 - Gethin ap Dafydd, Jo Jones
Bechgyn Bl 5 a 6 - Shaun Drybugh

Ras 400m a Ras 800m
Merched Bl 3 4 5 a 6 - Amy Dryburgh
Bechgyn Bl 3 a 4 - Jo Jones
Bechgyn Bl 5 a 6 - Daniel Bentham
Mabolgampau Ardal Aberystwyth
Shaun Dryburgh - 2ail Taflu Pel
Oliver Herchel - 4ydd Naid Uchel

### Sioe Capel Bangor

Canlyniadau Ysgol Pen-llwyn
BL 5 a 6 Cerrig wedi eu addurno
1af, Annie Lewis, 2ail Shaun Dryburgh a Roisin Robinson, 3ydd Tomos Nichols a Daniel Bentham.

Bl 3 a 4 - 1af Manon Davies, 2ail Rhian James a Jo Jones, 3ydd Mathias Roberts.

Matiau wedi eu haddurno
1af - Grwp Annie, Roisin, Tomos Watson, Tomos Oliver a Mathias.
2ail - Grwp Ieuan, Amy, Rhian, Rhodri a Manon.
3ydd - Grwp Amy B, Bethany Veiran, Alison, Jo a Lauren.

Adeiladau dwyreiniol mewn cwyr a phaent
Bl 5 a 6 - 1af Tomos Watson, 2ail Oliver Herchel, 3ydd Ieuan Evans a Rowan Edwards
Bl 3 a 4 - 1af Gethin ap Dafydd
2ail - Tomos Evans a Amy Baron
3ydd - Amy Dryburgh a Rhian James

Adeiladau o amgylch y byd
Bl 5 a 6 - 1af Shaun Dryburgh a Hal Young, 2ail Roisin Robinson, 3ydd Gerallt Williams a Dylan Williams

Bl 3 a 4 - 1af Amy Baron, 2ail Tomos Evans, 3ydd Mathias a Keiran

Adeiladau Rhyfedd
1af Rebecca, 2ail Nuala a Haf, 3ydd Steffan a Llyr

Anifail ar gefndir Marmor



1af Alaw, 2ail Laura, 3ydd Alan a Nathaniel

Pypedau
1af Rebecca, 2ail Iestyn a Myfanwy, 3ydd Alan

### Trip yr ysgol

Cawsom drip yn ein cynefin yr haf hwn. Diwrnod difyr yng Nghanolfan Amgen, Corris. Wrth gwrs roedd rhaid cael hyfen ia ar y ffordd adref.



### Cwrs Beiciau

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cwblhau y cwrs beicio. Steffan ac Annie Lewis, Ieuan Evans, Shaun Dryburgh, Tomos a Iestyn Watson, a Rowan Edwards a Rhodri Jones (heb fod yn y llun)

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Tomos Watson a Rhodri Jones yn ysgol Penweddig. Hefyd Shaun Dryburgh, Hal Young, Annie Lewis, Roisin Robinson, Daniel Bentham a Rowan Edwards yn ysgol Pen-glais.

Braf iawn oedd cael croesawu Morgan ar ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol ac yn dosbarth un.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Ysgwiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD
Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# YSGOL RHYDYPENNAU





Llun o'r plant a gafodd wobr ar ddiwrnod Gwobrwyo'r ysgol ar ddiwedd tymor diwethaf

### Garddwest yr ysgol

Ar yr 28ain o Fehefin cynhaliwyd Garddwest yr ysgol. Agorwyd yr arddwest yn swyddogol gan Mrs Gaenor Jones; gynt o'r ysgol dop. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau pwrpasol er mwyn codi arian i'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Mrs Gaenor Jones a'i gŵr Gareth ac hefyd i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth ar y dydd. Diolch arbennig i Mr Heath Raggett, cigydd y pentref ac ACE Decorating Suppliers fel prif noddwyr yr arddwest eleni; mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y dydd yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.



Tîm criced llwyddiannus yr ysgol - pencampwyr Canolbarth a Gogledd Cymru un o ddau dîm yn unig i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Prydain yn Grace Road Caerlyr ar y 14eg o Fehefin - Gorchest!

### Prysurdeb

Ar ddechrau blwyddyn academaidd arall, mae prysurdeb yr ysgol yn parhau. Yn barod, rydym yn y broses o ethol, trwy bleidlais, Y Cyngor Ysgol. Fel pob blwyddyn arall mi fydd aelodau'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion. Yn ychwanegol i hyn, ac ar ôl cwblhau ffurflenni cais a chyfweliadau gyda'r prifathro, mae blwyddyn 6 yn ran o Griw Cŵl yr ysgol. Maent yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau pwysig yn ystod y flwyddyn.

### Croesawu a Ffarwelio

Hoffai'r ysgol estyn croeso cynnes i Miss Rhian England fel aelod newydd o'r staff dysgu. Mi fydd Miss England yn gyfrifol am Flwyddyn dau tan y Nadolig.

Croeso hefyd i Miss Becky Bettany a fydd yn ymuno â'r staff cynnal dysgu.

Hoffai'r ysgol hefyd ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf.



Hwyl yr arddwest

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i rlant.

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Tenis

Yn dilyn llwyddiant yng nghystadlaethau cylch Aberystwyth, teithiodd dau o dîmau tenis o'r ysgol i lawr i Gaerdydd. Pwrpas y daith oedd cystadlu ym mhencampwriaethau Cymru ar gyrtiau clwb David Lloyd. Bu tîm o fechgyn a thîm o ferched o flwyddyn 6 yn cystadlu. Profiad anhygoel oedd y diwrnod drwyddi draw gyda'r disgyblion yn cael cyfle i chwarae ar gyrtiau o'r safon uchaf mewn awyrgylch unigryw. Er na ddaeth yr un tim i'r brig, cafwyd gêmau arbennig a llwyddwyd i ennill nifer ohonynt. Aelodau'r tîmau oedd: Rowan Hughes, Harry Walker, Harry Whalley, Ryan Witts, Rhydian Morgan, Alice Andrews, Gwenno Morris, Lowri Donnelly a Samantha Merry. Diolch yn fawr i'r Clwb Pêl-droed am gael defnydd o'r bws mini am y diwrnod. Diolch i Mr Hill am y trefniadau.



**Timau tenis yr ysgol y tu allan i Glwb tenis David Lloyd yng Nghaerdydd**

## Mabolgampau

Eleni llwyddwyd, er gwaethaf y tywydd, i gynnal ein mabolgampau. Cynhaliwyd nifer o gystadlaethau y maes cyn diwrnod y mabolgampau. Croesawyd disgyblion y cylch meithrin atom i redeg ac i fwynhau. Cafwyd prynhawn da a chaled o gystadlu gyda'r marciau mor agos eleni nad oedd y canlyniad wedi ei gyrraedd hyd ddiwedd y ras olaf. Yn y pen draw, er yr holl gystadlu agos a theg, Stewi a ddaeth i'r brig. Cyflwynwyd tarian yr enillwyr i'r capteiniad — Harry Whalley a Gwenno Morris. Enillwyd y marciau mwyaf ym mlwyddyn 6 gan Harry Whalley a Lowri Donnelly. Llongyfarchiadau i bob un am eu gwaith arbennig ac i'r staff am y gwaith trefnu a chofnodi.

## Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor diwethaf ffarweliwyd â nifer o staff yr ysgol. Ffarweliwyd â Miss Ceri Bethan Morgan, Mrs Lowri Jones, Mrs Eirian Dafis a Miss Elen Huws. Diolch i'r dair ohonynt am eu gwaith di-flino gyda disgyblion yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyflwynwyd blodau iddynt ar ddiwedd eu cyfnodau yn yr ysgol. Cyflwynwyd gwnïo arbennig gan ddisgyblion y dosbarth i Miss Morgan.

## Croeso

Croesawyd nifer o staff newydd i'r ysgol ar gychwyn y tymor newydd. Daeth Miss Rhian Davies atom am ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos i addysgu o dan y cytundeb baich gwaith. Apwyntiwyd Miss Eleri Edwards a Mrs Siân Donnelly atom i gynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ynghyd â Miss Angharad Roberts sy'n gofalu am ddisgybl. Croeso iddynt a gobeithio y byddant yn hapus yn yr ysgol.

## Diolch

Diolch i Mari Turner am ei gwaith arbennig gyda'r disgyblion. Bu'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal gweithdai drama gyda'r disgyblion.

## Sioe Frenhinol

Eleni eto, bu'r disgyblion wrthi yn paratoi ar gyfer y Sioe Frenhinol. Cyn cychwyn y Sioe, aeth tri llond car o eitemau i fyny i'w beirniadu. Diolch i Mrs Meinir Davies a Mrs Lynwen Jenkins am eu cymorth di-flino. Erbyn amser cinio dydd Llun, gwelwyd ffrwyth yr holl waith caled a chafwyd nifer o wobrau.

Owain Wilson - 1af am Beintio â bys
Dylan Edwards - 1af am eitem o ffelt
Sion Hurford - 1af yn yr adran Goedwigaeth
Sioned Exley - 2il am lygoden fwytadwy ac am anifail allan o lysiau
Tyler Nash - 2il am bot blodyn wedi ei addurno
Gwenno Morris - 2il am eitem o ffelt
Seren Jenkins - 3ydd am bot blodyn wedi ei addurno

Yn ogystal â hyn, llwyddodd yr ysgol i ennill y wobr arbennig sef: Gwobr Goffa E & E Perkins am yr ysgol gyda'r nifer fwyaf o farciau yn adran gwaith llaw y plant. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith arbennig ac am yr holl gymorth a gafwyd gan unigolion. Bu disgyblion yr ysgol wrthi yn cystadlu yn sioe Aberystwyth hefyd a llwyddodd nifer i ennill gwobrau. Bu mwyafrif y disgyblion yn cystadlu yn Sioe Penrhyn-coch.

## Dolffiniaid

Yn ystod mis Gorffennaf, gwelwyd nifer o luniau gan ddisgyblion yr ysgol yn y *Cambrian News*. Bu'r disgyblion wrthi yn tynnu lluniau o ddolffiniaid. Llongyfarchiadau i bawb a gafodd lun wedi ei gyhoeddi.

## Tripiau Ysgol

Ar ddechrau mis Gorffennaf cynhaliwyd ein tripiau ysgol. Teithiodd yr holl ysgol i lawr i Sir Benfro. Treuliodd y dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2 eu diwrnod yn mwynhau yr anifeiliaid yn Folly Farm. Trwy lwc cafwyd tywydd sych a chafwyd cyfle i fwydo'r anifeiliaid ac i fwynhau bywyd y fferm.
Aeth dosbarthiadau blynyddoedd 3 i 6 i Barc Heatherton. Cafwyd llawer o hwyl yma ar y go-karts, y chwarae pêl fâs, ar y cychod ynghyd â nifer o weithgareddau eraill. Diolch i bawb a ddaeth fel cymorth ar y tripiau a diolch i Gwmni Mid Wales Travel am wneud y siwrneau mor hwylus.

## Criced

Bu tîm criced yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament y cylch. Llwyddwyd i ennill drwodd i'r rowndiau terfynol. Llongyfrachiadau iddynt am chwarae mor dda.

## Prom Ysgolion

Cynhaliwyd prom ysgolion Cynradd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr ym mis Mehefin. Braf oedd gweld nifer o ddisgyblion yr ysgol ar y llwyfan naill ai yn y côr i ddisgyblion blwyddyn 6 neu yn y gerddorfa. Y disgyblion a fu'n ymddangos oedd: - Lowri Donnelly, Alice Andrews, Gwenno Morris, Emily Lewis, Rosie James, Rhydian Morgan, Samantha Merry, Lucy Cookson a Mared Pugh-Evans.

## Ynys-Hir

Dros dau ddiwrnod ym mis Gorffennaf treuliodd disgyblion yr ysgol gyfnodau ar Warchodfa Adar Ynys-hir. Treuliwyd yr amser yn cyflawni nifer o weithgareddau gan gynnwys chwilio am anifeiliaid yn y dŵr, gwylio adar, chwilio am anifeiliaid a thrychfilod yn y coed. Cafwyd llawer o hwyl a budd wrth ddefnyddio eu sgiliau i ddod o hyd i enwau anifeiliaid. Diolch i Mr Hill am drefnu'r teithiau.

## Amgueddfa

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ar ymweliad i'r Amgueddfa yn Aberystwyth. Roedd yr ymweliad yn rhan o weithgareddau y tymor. Treuliwyd amser yn edrych ar yr hen offer oedd yno a chafwyd cyfle i sgwrsio ac i ofyn cwestiynau. Ar ôl yr ymweliad aethpwyd i lawr at y traeth i gael cinio. Trueni nad oedd y tywydd yn ddigon braf i gael padlo — ond cafwyd hufen iâ!

## Ffair Haf

Cyn diwedd y tymor, cynhaliwyd Ffair Haf yr ysgol. Daeth criw ynghyd i gefnogi a chafwyd noson sych. Cynhaliwyd y barbeciw dan ofal Keith ac Anne Morris a chafwyd stondinau amrywiol yn neuadd yr ysgol. Ar y cae, cafwyd gêmau amrywiol i ddiddanu'r plant. Tynnwyd raffl ar ddiwedd y noson. Diolch i'r rhai a wnaeth gefnogi'r raffl drwy gynnig gwobrau. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y gwaith trefnu ac i'r rhai hynny a gefnogodd mewn unrhyw ffordd.

# TASG Y TINCER

Wel, sut aeth y gwyliau haf? A fuoch chi'n gwneud rhywbeth arbennig, neu a fuodd rai ohonoch ar wyliau i wledydd tramor? Mae'n siwr i sawl un ohonoch fynd i'r Sioe yn Llanelwedd. Ond oedd y tywydd yn braf? A beth am yr Eisteddfod yng Nghaerdydd? Rwy'n siwr i mi weld ambell un ohonoch yn crwydro'r maes! Gwelais rai ohonoch hefyd yng ngharnifal y Borth. Gobeithio eich bod i gyd wedi setlo yn eich dosbarthiadau a'ch ysgolion newydd, a bod digon o ffrindiau gennych, hen a newydd!



**Bethan Henley**

Diolch i bawb liwiodd y llun o'r ddau dolffin yn mwynhau nofio'n y môr. A welsoch chi rai dros y gwyliau? Dyma pwy fuodd wrthi a'u pensiliau lliw a phaent: Siôn Jones, Brynolwg, Bont-goch; Bethan Henley, Sunmead, Lôn Glanfrêd, Llandre; Ffion Williams, Brynrheidol, Capel Bangor; Saran Dafydd, 13 Maes y Garn, Bow Street; Daniel Rees, Brysgaga, Bow Street; Rhys, Siôn a Carys James, 35 Dôl Helyg, Penrhyn-coch.

Ti Bethan Henley sy'n ennill y tro hwn. Da iawn ti!

Ydech chi wedi gweld rhai o raglenni 'Cyw' ar S4C? A oes ffefryn 'da chi? Dwi'n hoff o 'Holi Hana', ac os ydw i'n teimlo fel symud o gwmpas, mae 'Heini' yn rhaglen grêt! Ydech chi'n medru enwi ffrindiau gorau Cyw? Dyma nhw:

Plwmp, sy'n hoffi chwarae pel-droed a chwarae triciau
Llew, sy'n hoffi codi ofn ar yr adar bach sy'n yr ardd, druan â nhw!
Bolgi, sy'n hoff o fwyta byrgers a hufen ia siocled
Jangl sy'n dod o Affrica, ac sy'n bwyta'n iach, yn wahanol i Bolgi
Deryn, sy'n hoff o ganu a hedfan

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o Llew yn chwarae yn y gwair? Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Hydref 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed | Rhif ffôn

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets
plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 311 | MEDI 2008